Rhif: **WG22147**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cynllunio Cadarnhaol

Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru

**Hydref 2014**

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y Bil Cynllunio (Cymru) drafft a Cynllunio Cadarnhaol – Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru.

**Cynulleidfa**

Busnesau, ymgynghorwyr, awdurdodau cynllunio lleol, asiantaethau'r llywodraeth a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, cyrff proffesiynol, grwpiau â diddordeb, y sector wirfoddol, cyrff cynrychioliadol ac unigolion â diddordeb yn y system gynllunio.

**Camau i'w Cymryd**

Er gwybodaeth yn unig

**Gwybodaeth bellach**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:
Tîm y Bil Cynllunio
Yr Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: planningbill@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau Ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
www.cymru.gov.uk/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?lang=cy

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN digidol 978-1-4734-2230-8
© Hawlfraint y Goron 2014
WG 22147

# CYNNWYS


Pennod 1: Cyflwyniad — Tudalen 1

Pennod 2: Trosolwg a chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad — Tudalen 3

Pennod 3: Crynodeb o'r themâu allweddol — Tudalen 18

Pennod 4: Dadansoddi’r ymatebion fesul cwestiwn unigol — Tudalen 21

Pennod 5: Crynodeb o'r Ymatebion fesul cwestiwn — Tudalen 22

- Cefnogi Newid mewn Diwylliant — Tudalen 22
- Stiwardiaeth Weithredol — Tudalen 26
- Gwella Cydweithrediad — Tudalen 57
- Gwella'r Ddarpariaeth Leol — Tudalen 67

Atodiad 1: Rhestr o ymatebwyr — Tudalen 93

# Pennod 1

## Cyflwyniad

1.1 Buwyd yn ymgynghori ar y Bil Cynllunio (Cymru) drafft a Cynllunio Cadarnhaol - Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru – am gyfnod o 12 wythnos rhwng mis Rhagfyr 12 a mis Chwefror 4. Dosbarthwyd yr ymgynghoriad i fwy na 200 o randdeiliaid â buddiant uniongyrchol yn y system gynllunio ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd. Edrychwyd ar dudalennau gwe'r Bil Cynllunio tua 15,000 o weithiau.

1.2 Er mwyn ategu'r ymgynghoriad, rhoddwyd nifer o gyfleoedd i randdeiliaid drafod y cynigion gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys digwyddiadau ymgynghori a arweiniwyd gan y Gweinidog a digwyddiadau a gynhaliwyd ar y cyd â Rhwydwaith Cynllunwyr Ifanc Cymru. Hefyd, trefnodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ddigwyddiadau ymgynghori ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn sector yr amgylchedd adeiledig, gan gynnig cyfle pellach i drafod y cynigion gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae nifer o ddigwyddiadau masnachol yn canolbwyntio ar y Bil drafft a Cynllunio Cadarnhaol wedi'u cynnal hefyd.

Tabl (i): Amlinelliad o'r digwyddiadau ymgynghori

| Digwyddiad | Lleoliad | Dyddiadau | Cyfanswm y cynadleddwyr |
|---|---|---|---|
| Digwyddiadau Ymgynghori'r Gweinidog ar y Bil Cynllunio (Cymru) drafft a Cynllunio Cadarnhaol | Llandudno a Chaerdydd | 23 a 27 Ionawr 2014 | 122 |
| Digwyddiadau Ymgynghori'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol | Llandudno ac Abertawe | 24 a 30 Ionawr 2014 | 170 |
| Digwyddiadau Ymgynghori Rhwydwaith Cynllunwyr Ifanc Cymru | Llandudno a Chaerdydd | 23 a 27 Ionawr 2014 | 50 |

1.3 Llywiwyd cynigion yr ymgynghoriad gan gyfres gynhwysfawr o dystiolaeth a oedd yn golygu bod modd defnyddio ystod eang o safbwyntiau i lywio'r cynigion yn y Bil a datblygu consensws cyffredinol ynglŷn â'r meysydd sydd angen eu newid.

1.4 Mae dogfennau'r sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r cynigion yn cynnwys adroddiad helaeth a baratowyd gan Grŵp Cynghori Annibynnol a wahoddwyd i gynnal archwiliad cynhwysfawr o'r system gynllunio. Cafodd y Grŵp dros 100 o ymatebion i'w gais am dystiolaeth a chynhaliodd raglen eang o drafodaethau gyda rhanddeiliaid.

1.5 Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn y gwaith o baratoi'r sail dystiolaeth ac a ymatebodd i gynigion ein hymgynghoriad. Mae'r ymatebion yn ffynhonnell amhrisiadwy o safbwyntiau, gwybodaeth a syniadau, a ddefnyddiwyd i lywio'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r rhaglen gysylltiedig o welliannau i'r system gynllunio.

# Pennod 2

## Trosolwg a Chrynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

2.1 Ar 4 Rhagfyr 2013, cyhoeddwyd y Bil Cynllunio (Cymru) drafft a'r papur ategol ‘Cynllunio Cadarnhaol – Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru’ at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus. Parodd y cyfnod ymgynghori am 12 wythnos a daeth i ben ar 26 Chwefror 2014.

2.2 Cafodd cyfanswm o 405 o ymatebion eu derbyn a’u hystyried gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd hyd at bythefnos ar ôl y dyddiad cau. O'r 405 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd nifer ohonynt yn union yr un peth gan eu bod yn defnyddio templedi a ddarparwyd gan Gyfeillion y Ddaear Cymru a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg, gyda'r naill yn cyfrif am 19 o ymatebion a'r llall yn cyfrif am 94 o ymatebion.

2.3 Ceir crynodeb ystadegol o bob cwestiwn isod. Ceir rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1. Mae cryno ddisg sy'n cynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael o: planning.division@cyrmu.gsi.gov.uk.

2.4 Atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bob cwestiwn a darparodd rhai sylwadau ychwanegol i ategu eu hymatebion. Dadansoddwyd a nodwyd unrhyw sylwadau ychwanegol.

2.5 Gofynnwyd i bob ymatebydd roi ei hun mewn un o chwe chategori. Isod ceir tabl cryno o'r ymatebwyr yn ôl sector.

Tabl (ii): Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl sector

| Sector yr Ymatebwyr | Nifer yr Ymatebion o'r Sector | Canran yr Ymatebion o'r Sector |
|---|---|---|
| 1. Busnesau/Ymgynghorwyr | 59 | 15% |
| 2. Awdurdod Cynllunio Lleol | 24 | 6% |
| 3. Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | 54 | 13% |
| 4. Corff Proffesiynol/Grŵp â Diddordeb | 47 | 12% |
| 5. Y Sector Gwirfoddol | 36 | 9% |
| 6. Arall | 185 | 46% |
| Cyfanswm | 405 | 100% |

2.6 O'r 405 o ymatebion, cafodd 46% eu cynnwys o dan y categori sector ‘arall’, 15% fel ‘busnes/ymgynghorydd’ a 13% fel ‘asiantaeth y llywodraeth neu gorff sector cyhoeddus arall’.

2.7 Roedd gan bob cwestiwn opsiwn ‘ie/na’ er mwyn i ymatebwyr roi eu barn. Darparodd rhai ymatebwyr sylwadau ond gwnaethant ddewis peidio â rhoi ateb uniongyrchol; mae hyn wedi'i nodi fel ‘ni fynegwyd barn bendant’. Isod ceir crynodeb sy'n nodi a roddodd ymatebydd ateb cadarnhaol neu ateb negyddol neu a fethodd â rhoi barn bendant. Mae'r colofnau yn dangos nifer yr ymatebwyr a'u canran

Tabl (iii): Crynodeb o'r ymatebion ‘cadarnhaol’ a ‘negyddol’

| Crynodeb o'r ymatebion ‘cadarnhaol’ a ‘negyddol’ a'r ymatebion hynny lle na fynegwyd barn bendant. | | |
|---|---|---|
| Cwestiwn 1<br><br>A ydych yn cytuno y bydd y cylch gwaith arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn helpu awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid i wella perfformiad? | | |
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 152 | 91.6% |
| Nac ydw | 14 | 8.4% |
| Ni fynegodd 239 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |
| Cwestiwn 2<br><br>A ydych yn cytuno y dylid adolygu trefniadau cymorth presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer sector yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru? | | |
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 129 | 95.6% |
| Nac ydw | 6 | 4.4% |
| Ni fynegodd 270 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |
| Cwestiwn 3<br><br>A ydych yn cytuno y dylid paratoi fframweithiau cymhwysedd ar gyfer ymarferwyr cynllunio a chynrychiolwyr etholedig i ddisgrifio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen er mwyn diwygio'r system gynllunio? | | |
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 153 | 87.4% |
| Nac ydw | 22 | 12.6% |
| Ni fynegodd 230 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 4<br><br>A ydych yn cytuno y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer pennu blaenoriaethau cenedlaethol ac yn hwyluso'r broses o'u cyflawni? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 145 | 91.8% |
| Nac ydw | 13 | 8.2% |
| Ni fynegodd 247 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 5<br><br>A ydych yn cytuno y dylid integreiddio Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru i greu un ddogfen? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 126 | 88.1% |
| Nac ydw | 17 | 11.9% |
| Ni fynegodd 262 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 6<br><br>A ydych yn cytuno y dylid paratoi cyfres graidd o bolisïau rheoli datblygu i'w cymhwyso'n gyson gan bob awdurdod cynllunio lleol? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 127 | 85.2% |
| Nac ydw | 22 | 14.8% |
| Ni fynegodd 256 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

Cwestiwn 7

A ydych yn cytuno y bydd yr hierarchaeth datblygu arfaethedig yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur gan ddibynnu ar eu buddiannau a'u heffeithiau tebygol?

| Opsiwn | Nifer yr ymatebwyr | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 99 | 70.7% |
| Nac ydw | 41 | 29.3% |

Ni fynegodd 265 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb.

Cwestiwn 8

A ydych yn cytuno gyda'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) fel y'u nodir yn Atodiad B?

| Opsiwn | Nifer yr ymatebwyr | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 89 | 72.4% |
| Nac ydw | 34 | 27.6% |

Ni fynegodd 282 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb.

Cwestiwn 9

A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Sylweddol a nodir yn Atodiad B?

| Opsiwn | Nifer yr ymatebwyr | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 92 | 69.7% |
| Nac ydw | 40 | 30.3% |

Ni fynegodd 273 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb.

| Cwestiwn 10<br><br>A ydych yn cytuno y dylai ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) fod yn destun hysbysiad ac ymgynghoriad cyn ymgeisio gorfodol? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 144 | 97.3% |
| Nac ydw | 4 | 2.7% |
| Ni fynegodd 257 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 11<br><br>A ydych yn cytuno y dylid codi ffi am gyngor cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) arfaethedig? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 108 | 81.8% |
| Nac ydw | 24 | 18.2% |
| Ni fynegodd 273 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 12<br><br>A ydych yn cytuno mai Arolygiaeth Gynllunio Cymru yw'r corff mwyaf priodol i ymgymryd â'r gwaith o brosesu cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 130 | 89.0% |
| Nac ydw | 16 | 11.0% |
| Ni fynegodd 259 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 13<br><br>A ydych yn cytuno mai dim ond un cylch o ddiwygiadau y dylid ei ganiatáu i gais ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ar ôl iddo gael ei gofrestru'n ffurfiol? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 61 | 46.9% |
| Nac ydw | 69 | 53.1% |
| Ni fynegodd 275 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 14<br><br>A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ymdrin â chaniatadau cysylltiedig? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 111 | 88.1% |
| Nac ydw | 15 | 11.9% |
| Ni fynegodd 279 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 15<br><br>A ydych yn cytuno y dylai'r broses archwilio ddilyn gweithdrefn debyg i'r weithdrefn a gynigir ar gyfer ceisiadau a gaiff eu galw i mewn ac apeliadau? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 108 | 84.4% |
| Nac ydw | 20 | 15.6% |
| Ni fynegodd 277 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 16<br><br>A ydych yn cytuno â'r rhaniad cyfrifoldebau a gynigir rhwng Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yn ystod y cam ar ôl gwneud penderfyniad? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 88 | 72.7% |
| Nac ydw | 33 | 27.3% |
| Ni fynegodd 284 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |
| Cwestiwn 17<br><br>A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno datganiad achos a datganiad o dir cyffredin drafft wrth gyflwyno apêl? | | |
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 104 | 75.4% |
| Nac ydw | 34 | 24.6% |
| Ni fynegodd 267 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |
| Cwestiwn 18<br><br>A ydych yn cytuno mai'r Arolygiaeth Gynllunio ddylai benderfynu sut i ystyried apêl? | | |
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 108 | 73.5% |
| Nac ydw | 39 | 26.5% |
| Ni fynegodd 258 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 19<br><br>A ydych yn cytuno na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys cais unwaith y bydd apêl wedi'i chyflwyno? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 105 | 68.2% |
| Nac ydw | 49 | 31.8% |
| Ni fynegodd 251 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 20<br><br>A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru roi proses dyfarnu costau ar waith? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 91 | 73.4% |
| Nac ydw | 33 | 26.6% |
| Ni fynegodd 281 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 21<br><br>A ddylid cyflwyno ffioedd i gwmpasu costau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag apêl? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Dylid | 59 | 46.1% |
| Na ddylid | 69 | 53.9% |
| Ni fynegodd 277 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 22<br><br>A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno Gwasanaeth Apeliadau Masnachol? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 98 | 86.7% |
| Nac ydw | 15 | 13.3% |
| Ni fynegodd 292 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 23<br><br>A ydych yn cytuno y dylid uno awdurdodau cynllunio lleol i greu unedau mwy? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 78 | 56.9% |
| Nac ydw | 59 | 43.1% |
| Ni fynegodd 268 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 24<br><br>A ydych o'r farn y dylai Awdurdod Parc Cenedlaethol barhau'n gyfrifol am gynllunio yn ei ardal? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 100 | 67.6% |
| Nac ydw | 48 | 32.4% |
| Ni fynegodd 257 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 25<br><br>A ydych yn cytuno mai dim ond mewn rhai ardaloedd penodol y dylid paratoi cynlluniau datblygu strategol? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 98 | 73.7% |
| Nac ydw | 35 | 26.3% |
| Ni fynegodd 272 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |
| Cwestiwn 26<br><br>A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu cwmpas Cynlluniau Datblygu Strategol i'r materion allweddol a nodir ym mharagraff 5.29? | | |
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 73 | 57.5% |
| Nac ydw | 54 | 42.5% |
| Ni fynegodd 278 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |
| Cwestiwn 27<br><br>A ydych yn cytuno y dylai partneriaeth rhwng awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol oruchwylio'r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol? | | |
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 110 | 76.4% |
| Nac ydw | 34 | 23.6% |
| Ni fynegodd 261 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 28<br><br>A ydych yn cytuno y dylid paratoi Cynllun Datblygu Lleol llai manwl sy'n canolbwyntio ar faterion o arwyddocâd lleol mewn ardaloedd lle ceir Cynllun Datblygu Strategol? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 94 | 64.8% |
| Nac ydw | 51 | 35.2% |
| Ni fynegodd 260 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 29<br><br>A ydych yn cytuno gyda'r elfennau hanfodol a nodwyd ar gyfer gwasanaeth cynllunio da yn Atodiad A? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 102 | 66.2% |
| Nac ydw | 52 | 33.8% |
| Ni fynegodd 251 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 30<br><br>A ydych yn cytuno y dylai pob awdurdod cynllunio lleol lunio a chyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol yn unol â safonau y cytunwyd arnynt? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 143 | 94.1% |
| Nac ydw | 9 | 5.9% |
| Ni fynegodd 253 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 31<br><br>A ydych yn cytuno lle yr ystyrir bod awdurdod cynllunio lleol yn perfformio'n wael, y dylai fod opsiwn i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol i Weinidogion Cymru? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 87 | 59.2% |
| Nac ydw | 60 | 40.8% |
| Ni fynegodd 258 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 32<br><br>A ydych yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 102 | 72.3% |
| Nac ydw | 39 | 27.7% |
| Ni fynegodd 264 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 33<br><br>A ydych yn cytuno y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynllunio ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd ymlaen llaw o leiaf a chynnwys dyddiad dod i ben penodol na fyddant yn gynlluniau datblygu gweithredol ar ôl y dyddiad hwnnw? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 112 | 78.3% |
| Nac ydw | 31 | 21.7% |
| Ni fynegodd 262 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 34<br><br>A ydych yn cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda chynghorau tref a chymuned i lunio cynlluniau lleoedd y gellir eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio ategol? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 104 | 77.6% |
| Nac ydw | 30 | 22.4% |
| Ni fynegodd 271 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 35<br><br>A ydych yn cytuno os yw cynnig datblygu yn cyd-fynd â dyraniad mewn cynllun datblygu a fabwysiadwyd, y dylid cyflwyno proses ceisiadau cynllunio newydd, er mwyn sicrhau mai dim ond manylion megis dyluniad a chynllun a gaiff eu hystyried? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 78 | 55.3% |
| Nac ydw | 63 | 44.7% |
| Ni fynegodd 264 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 36<br><br>A ydych yn cefnogi'r cynnig i ganiatáu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio lleol i beidio â chofrestru cais cynllunio? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 112 | 76.7% |
| Nac ydw | 34 | 23.3% |
| Ni fynegodd 259 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 37<br><br>A ddylid dileu'r gofyniad gorfodol am ddatganiadau dylunio a mynediad gorfodol? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Dylid | 95 | 57.6% |
| Na ddylid | 70 | 42.4% |
| Ni fynegodd 240 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 38<br><br>A ddylid dileu'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol mewn papur newydd lleol? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Dylid | 69 | 46.9% |
| Nac ydw | 78 | 53.1% |
| Ni fynegodd 258 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 39<br><br>A ddylai fod unrhyw amrywiad lleol o fewn cynllun dirprwyo cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Dylai | 69 | 53.5% |
| Na ddylai | 60 | 46.5% |
| Ni fynegodd 276 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 40<br><br>A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu mân newid perthnasol i "newid y mae ei faint a'i natur yn arwain at ddatblygiad nad yw'n sylweddol wahanol i'r datblygiad a gymeradwywyd"? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 117 | 85.4% |
| Nac ydw | 20 | 14.6% |
| Ni fynegodd 268 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 41<br><br>A ydych yn cytuno bod y cynigion yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i warchod tir a ddefnyddir fel meysydd tref a phentref a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 94 | 72.3% |
| Nac ydw | 36 | 27.7% |
| Ni fynegodd 275 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 42<br><br>A ydych yn cytuno y bydd y cynigion yn lleihau oedi yn y system gorfodi cynllunio? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 105 | 86.8% |
| Nac ydw | 16 | 13.2% |
| Ni fynegodd 284 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

| Cwestiwn 43<br><br>A ydych yn cytuno â chyflwyno hysbysiadau atal dros dro fel rhan o'r system gorfodi cynllunio yng Nghymru? | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
| Ydw | 121 | 89.6% |
| Nac ydw | 14 | 10.4% |
| Ni fynegodd 270 o ymatebwyr eraill farn bendant; gan gynnwys 113 o ymatebwyr ymgyrchu a roddodd yn union yr un ymateb. | | |

# Pennod 3

## Crynodeb o'r themâu allweddol

3.1 Cododd yr ymgynghoriad amrywiaeth eang o faterion y gellir nodi sawl thema allweddol ohonynt. Rhoddir manylion pellach yn y crynodeb o bob cwestiwn, fel y nodir ym Mhennod 2.

*Effeithiau posibl ar atebolrwydd democrataidd lleol*

3.2 Roedd sawl ymatebydd o'r farn y bydd cynigion yr ymgynghoriad gyda'i gilydd yn lleihau atebolrwydd democrataidd lleol o ran cynllunio. Nodwyd dau gynnig fel y rhai a allai gael yr effaith fwyaf. Yn gyntaf, y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Paneli Cynllunio Strategol y mae traean ohonynt yn fuddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol anetholedig. Yn ail, cynigion y bwriedir iddynt sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cynllunio lleol yn fwy cyson gan gynnwys rheolaethau ar faint pwyllgorau cynllunio a chynnig i gyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol i nodi ceisiadau cynllunio y mae angen i swyddogion ymdrin â hwy.

3.3 Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch agweddau penodol ar y cynigion, gan gynnwys Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, sy'n caniatáu i'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu sut i ystyried apêl ac sy'n darparu dull o uno awdurdodau cynllunio lleol.

3.4 I'r gwrthwyneb, ystyriwyd bod agweddau ar yr ymgynghoriad yn gadarnhaol o ran atebolrwydd lleol; er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai trosglwyddo swyddogaethau cynllunio awdurdodau parc cenedlaethol i awdurdodau lleol yn cynyddu atebolrwydd democrataidd. Hefyd, ystyriwyd bod y cynigion ar gyfer cynlluniau lleoedd yn rhai cadarnhaol o ran galluogi cymunedau lleol i gymryd rhan y broses gwneud cynlluniau.

*Cydnawsedd y cynigion â'r argymhellion ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus*

3.5 Cyfeiriodd nifer fawr o ymatebwyr at oblygiadau Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig o ran cynigion yr ymgynghoriad a fyddai'n hwyluso cydweithio rhwng awdurdodau cynllunio lleol. Yn y cyd-destun hwn nododd llawer o ymatebwyr fod yr adroddiad wedi disodli cynigion yr ymgynghoriad. Er enghraifft, nododd ymatebwyr fod angen ystyried canlyniadau'r adroddiad neu ailystyried cynigion yr ymgynghoriad er mwyn i Weinidogion Cymru allu cyfarwyddo paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a darparu ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol mewn ardaloedd penodol.

*Eglurder y cynigion a'r costau*

3.6 Nododd nifer o ymatebwyr, yn achos rhai ardaloedd, na roddodd yr ymgynghoriad ddigon o fanylion i asesu'r effeithiau a'r costau tebygol sy'n gysylltiedig â'r cynigion drafft.

3.7 Gofynnodd ymatebwyr am eglurder a rhagor o wybodaeth mewn perthynas â nifer o gynigion yr ymgynghoriad, gan gynnwys manylion pellach am rai o'r trothwyon a'r meini prawf arfaethedig a ddefnyddir i ddiffinio ceisiadau y penderfynir arnynt o dan y gyfundrefn ceisiadau cynllunio ar gyfer ‘Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol’, eglurder o ran y dystiolaeth a ddefnyddir i nodi bod awdurdod cynllunio lleol yn ‘perfformio'n wael’ a rhagor am wybodaeth am agweddau penodol ar y cynigion ar gyfer Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio.

3.8 O ran costau'r cynigion, mynegwyd pryderon penodol ynghylch sut y câi dyletswyddau newydd eu hariannu. Yn hyn o beth, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylai awdurdodau cynllunio lleol allu codi ffi am ddarparu gwasanaeth newydd neu wasanaeth wedi'i wella. Er enghraifft, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi cyfran o'r ffi am brosesu ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol i awdurdodau cynllunio lleol er mwyn hwyluso eu mewnbwn i'r broses gwneud cais.

3.9 Nododd ymatebwyr hefyd fod angen sicrhau y caiff ffioedd eu dosbarthu'n deg er mwyn talu costau yr eir iddynt yn broses gynllunio; yn benodol, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai pawb sy'n mynd i gostau ac sy'n cymryd rhan yn y broses o benderfynu ar apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi caniatâd cynllunio gael cyfran o unrhyw ffioedd a geir am waith a wneir yn ystod y broses hon.

*Cydberthynas â deddfwriaeth arall*

3.10 Thema gyffredinol a gododd o'r ymgynghoriad oedd y gydberthynas rhwng y darpariaethau yn y Bil Cynllunio (Cymru) drafft a deddfwriaeth bresennol ac arfaethedig arall, gan gynnwys Bil Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, Bil yr Amgylchedd a'r Bil Treftadaeth. Yn y cyd-destun hwn, lleisiodd ymatebwyr bryderon a gwnaethant sylwadau y dylid gwneud cysylltiadau rhwng elfennau penodol o'r cynigion a Biliau eraill.

3.11 Rhoddodd ymatebwyr ragor o bwyslais ar y gydberthynas rhwng y gyfundrefn cynllunio defnydd tir a threfniadau arfaethedig ar gyfer cynllunio adnoddau morol a naturiol. Er enghraifft, gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynghylch yr effeithiau a gâi'r cynigion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol ar y trefniadau hynny, tra bod rhai ymatebwyr o'r farn y dylid ymestyn y dangosyddion perfformiad arfaethedig er mwyn mesur perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru.

*Ymgorffori agweddau eraill ar bolisïau cynllunio mewn deddfwriaeth*

3.12 Cadarnhaodd y ddogfen ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol mai adnodd i wella strwythurau a gweithdrefnau cyflawni cynllunio yw'r Bil Cynllunio (Cymru) drafft a bod polisïau cynllunio y tu allan i gwmpas y Bil, gyda pholisïau a chanllawiau cynllunio helaeth yn cael eu darparu gan Bolisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol. Gellir diweddaru'r rhain yn haws nag y gellir diweddaru deddfwriaeth.

3.13 Roedd sawl ymatebydd am weld gwahanol agweddau ar bolisïau cynllunio yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â phynciau'r Gymraeg, sipsiwn a theithwyr ac ystyriaethau datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, nododd gwahanol ymatebwyr eu bod am weld cyfeiriad at y Gymraeg ar wyneb y Bil.

# Pennod 4

## Dadansoddi'r ymatebion fesul cwestiwn unigol

4.1 Mae'r penodau canlynol yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion i bob cwestiwn unigol. Fel y nodwyd ym mhennod 1, lle mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn gwahodd ymatebion cadarnhaol neu negyddol, crynhoir gwaith asesu meintiol sylfaenol isod. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw hyn yn adlewyrchu cyfanswm yr ymatebwyr. Yn hytrach, mae'n seiliedig ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb cadarnhaol neu negyddol uniongyrchol i'r cwestiynau (fel y nodir yn Nhabl (iii)). Dewisodd llawer o ymatebwyr beidio â rhoi ateb uniongyrchol ond gwnaethant gyflwyno sylwadau. Lle bynnag y bo modd, mae sylwadau a safbwyntiau wedi'u hymgorffori yn y dadansoddiad os oeddent yn ymwneud â phwnc y cwestiynau hyd yn oed os na chawsant eu cyflwyno'n benodol fel atebion i'r cwestiynau. Gwahoddodd y rhan fwyaf o'r cwestiynau ymatebwyr i ymhelaethu ar eu safbwyntiau. Felly, mae llawer o'r dadansoddiad canlynol yn feintiol.

# Pennod 5

## Crynodeb o'r Ymatebion fesul cwestiwn

### Cefnogi Newid mewn Diwylliant

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y bydd y cylch gwaith arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn helpu awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid i wella perfformiad?**

5.1 Roedd cryn gefnogaeth i sefydlu Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio a nododd 152 o ymatebwyr (91.6% o' rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn hybu proffesiynoldeb a chysondeb ac yn galluogi dull mwy cydgysylltiedig o ddatblygu yng Nghymru; gan ddarparu hyfforddiant, gwella perfformiad, annog cydweithio, rhannu arfer da a galluogi cyfryngu. Yn hyn o beth, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio gynnal systemau TG/cronfeydd data a rennir a chronfa ddata cyfraith achosion ar gamau gorfodi a materion cynllunio eraill.

5.2 Nododd ymatebwyr fod angen i'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio ychwanegu gwerth a gweithredu mewn modd tryloyw, effeithlon ac ymatebol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, gan nodi y dylid ystyried gofyn i gorff allanol gynnal y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio.

5.3 Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod cyfansoddiad aelodaeth y Bwrdd Cynghori yn allweddol i weithrediad y Gwasanaethau Cynghori a Gwella Cynllunio, gan nodi bod angen sicrhau bod ganddo gynrychiolaeth amlddisgyblaeth a chytbwys gan gynnwys buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

5.4 Nododd nifer o ymatebwyr fod angen darparu adnoddau priodol ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio. Awgrymodd ymatebwyr y gallai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio gydweithio â'r Gwasanaeth Cynghori Cynllunio yn Lloegr er mwyn lleihau costau. Nododd ymatebwyr hefyd ei bod yn bwysig sicrhau bod y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn cael ei ddarparu am ddim, yn arbennig i awdurdodau cynllunio lleol a bod angen darparu adnoddau digonol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol hefyd ac y dylai fod yn ofynnol iddynt ymateb i gyngor ac argymhellion a wneir gan y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio.

5.5 Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig monitro effeithiolrwydd gwaith y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio drwy bennu nodau ac amcanion â dangosyddion perfformiad allweddol, cerrig milltir a chanlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio gael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru ac y dylai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio weithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol i bennu cwmpas rhaglen waith flynyddol wedi'i thargedu a'i hadolygu. Gofynnodd yr ymatebwyr am eglurhad ynghylch sut mae rôl fonitro'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn cysylltu â fframwaith perfformiad awdurdodau cynllunio lleol.

5.6 Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig bod y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn manteisio ar brofiad y Gwasanaeth Cynghori Cynllunio yn Lloegr ac enghreifftiau tebyg eraill. Nododd ymatebwyr fod angen i'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol o bob sector ac roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid gorfodi awdurdodau cynllunio lleol i ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio.

5.7 Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio ddarparu hyfforddiant i Aelodau, swyddogion cynllunio, cynghorwyr tref a chymuned ac ymgyngoreion statudol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd o'r farn y dylai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio roi cyngor technegol arbenigol (gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol). Awgrymodd ymatebwyr y dylai cylch gwaith y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio gynnwys cyflawni rôl debyg i Dîm Cynghori ar gyfer Ceisiadau Mawr (ATLAS) a rhoi cyngor ar geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a phrosiectau sy'n croesi ffiniau awdurdodau cynllunio lleol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y posibilrwydd y gallai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio gyflawni rôl ymchwil.

5.8 Roedd ymatebwyr yn gallu gweld manteision archwiliadau sgiliau rheolaidd ond roeddent o'r farn y gallai hyn fod yn feichus i awdurdodau cynllunio lleol. Gofynnodd ymatebwyr sut y byddai awdurdodau cynllunio lleol yn cael gafael ar gymorth y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi pwyslais ar sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio lleol ddigon o adnoddau ac y gallai cyrff sy'n bodoli eisoes megis Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru a Chomisiwn Dylunio Cymru gyflawni rôl arfaethedig y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn ei le.

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno y dylid adolygu trefniadau cymorth presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer sector yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru?**

5.9 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen adolygu'r trefniadau cymorth ar gyfer sector yr amgylchedd adeiledig. Roedd 129 o ymatebwyr (95.6 % o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) o blaid cynnal adolygiad yn benodol, er mwyn lleihau dyblygu a chynyddu effeithlonrwydd. Nodwyd rôl Llywodraeth Cymru yn sector yr amgylchedd adeiledig gan rai ymatebwyr ac yn benodol y rôl arweiniol i sicrhau bod seilwaith strategol hanfodol yn cael ei nodi ar y dechrau pan gynigir ardaloedd twf. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal yr adolygiad fel mater o frys ac y gallai Llywodraeth Cymru arwain drwy esiampl drwy newid diwylliannau cynllunio mewn awdurdodau cynllunio lleol.

5.10 Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y trefniadau cymorth presennol, gan gynnwys gwaith Comisiwn Dylunio Cymru, Adeiladau Arbenigrwydd a Chanolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru. Rôl Comisiwn Dylunio Cymru a gafodd y gefnogaeth gryfaf. Fodd bynnag, ystyriwyd bod gan bob un o'r sefydliadau hyn gyfraniad i'w wneud ac y dylid cadw eu gwasanaethau. Ystyriodd rhai ymatebwyr a oedd angen mwy o gydweithio rhwng y sefydliadau hyn yn ogystal â rhinweddau defnyddio eu gwybodaeth i uwchsgilio cynllunwyr ac aelodau etholedig.

5.11 Nodwyd y gydberthynas rhwng y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio a'r sector hwn gan nifer o ymatebwyr, gyda rhai yn cyfeirio at yr angen i bennu cylch gwaith clir i'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio ac roeddent o'r farn y gallai'r trefniadau cymorth presennol ategu'r gwasanaeth.

5.12 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i helpu awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu gwasanaethau yn nhermau'r hen Gronfa Gwella Cynllunio a'r angen i adolygu'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn sgil pasio deddfwriaeth gynllunio newydd.

5.13 Lleisiodd ymatebwyr bryderon ynghylch y pwyslais a roddwyd ar yr amgylchedd adeiledig yn gyffredinol yn yr ymgynghoriad ac roeddent o'r farn y dylid gwneud cysylltiadau â Bil yr Amgylchedd, Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr amgylchedd naturiol a seilwaith gwyrdd. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod pwyslais ar wneud penderfyniadau yn gyflym ar draul ansawdd ac y dylai dyluniad a'r amgylchedd naturiol hefyd gael eu hystyried yn y broses gwneud penderfyniadau. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd y cwestiwn yn glir ac roeddent yn amau cwmpas y term ‘amgylchedd adeiledig’.

5.14 Er bod cefnogaeth gyffredinol i gynnal adolygiad, roedd ymatebwyr eraill o'r farn nad oedd achos cymhellol o blaid adolygu'r trefniadau presennol cyn bod canlyniad y Bil Cynllunio yn hysbys.

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylid paratoi fframweithiau cymhwysedd ar gyfer ymarferwyr cynllunio a chynrychiolwyr etholedig i ddisgrifio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen er mwyn diwygio'r system gynllunio?**

5.15 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion hyn ac roedd 153 o ymatebwyr (87.4% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) o blaid cyflwyno fframwaith cymhwysedd. Yn benodol, nododd rhai ymatebwyr y byddai fframweithiau cymhwysedd yn gwella darpariaeth ac y byddai'n fuddiol mabwysiadu ‘agwedd gallu gwneud’?

5.16 Cododd llawer o ymatebwyr gwestiynau ynghylch yr agweddau manwl o fewn y fframwaith. Yn benodol, codwyd cwestiynau ynghylch y defnydd o'r fframwaith ar draws awdurdodau cynllunio lleol, sut y câi ymarferwyr eu barnu yn erbyn y fframwaith, gorfodi'r fframwaith, sut y byddai'n gweithio mewn perthynas â chyrff proffesiynol / fframweithiau sy'n bodoli eisoes, mesur canlyniadau ac ansawdd y fframwaith. Ystyriodd sawl ymatebydd y rôl y dylai cyrff megis y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio ei chwarae o ran datblygu'r fframwaith hwn. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na fyddai un fframwaith yn gweithio ac roeddent o'r farn y dylai fframweithiau o'r fath ategu'r rhai a ddarperir eisoes gan gyrff proffesiynol perthnasol.

5.17 Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch rôl aelodau etholedig yn y broses gynllunio a rôl fframweithiau cymhwysedd. Roedd rhai o'r farn y gallent helpu i sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau cymwys a chyson tra oedd eraill yn pryderu ynghylch y goblygiadau o ran gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Codwyd mater defnyddio cymhellion a sancsiynau fel rhan o fframwaith cymhwysedd gan rai ymatebwyr a holodd hefyd sut y byddai sancsiynau yn gweithio'n ymarferol.

5.18 Nododd gwahanol ymatebwyr, yn ogystal â'u cyflwyno i swyddogion awdurdodau cynllunio lleol ac aelodau pwyllgorau cynllunio, y dylid cyflwyno fframweithiau i ymgyngoreion statudol, Aelodau'r Cynlluniad a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r system gynllunio (ymhlith eraill). Lleisiwyd safbwyntiau ynghylch yr angen i ystyried rôl a chyd-destun fframweithiau, er enghraifft ystyried natur cymunedau gan gynnwys cymunedau Cymraeg.

5.19 Roedd cynnwys y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni diwygiadau cynllunio o fewn y fframwaith yn thema gyffredin a nodwyd gan wahanol ymatebwyr. Yn gysylltiedig â hyn, cyflwynwyd sylwadau ar gynnwys cyrsiau hyfforddi i swyddogion cynllunio, aelodau etholedig, ymgyngoreion statudol a chynghorau cymuned a thref, ymhlith eraill sy'n rhyngweithio â'r gwasanaeth cynllunio o fewn y fframwaith ac roedd cefnogaeth o blaid gwneud hynny. Roedd eraill o'r farn y dylid ystyried cynllun achredu ar gyfer y rhanddeiliaid hynny sydd wedi cwblhau hyfforddiant cymhwysedd yn llwyddiannus.

## Stiwardiaeth Weithredol

**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer pennu blaenoriaethau cenedlaethol ac yn hwyluso'r broses o'u cyflawni?**

5.20 Roedd cefnogaeth gyffredinol i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, er i gryn nifer o ymatebwyr ofyn am eglurhad pellach ynghylch y broses o lunio'r Fframwaith a'r cynnwys arfaethedig. Cytunodd 145 o ymatebwyr (91.8% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer pennu blaenoriaethau cenedlaethol.

5.21 Cynigiodd llawer o ymatebwyr awgrymiadau ynglŷn â'r hyn y dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei gwmpasu. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys gwneud cysylltiadau â chynlluniau cenedlaethol eraill (megis y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol) a Biliau'r Llywodraeth, gan atgyfnerthu statws y Gymraeg yn genedlaethol a chynnwys meysydd pwnc megis ynni a seilwaith gwyrdd. Roedd gwahaniaeth barn ynglŷn â chynnwys rhai materion yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, megis targedau ar gyfer tai ac a oedd angen rhoi statws cynllun datblygu i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

5.22 Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar amseriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, gan gynnwys holi ynghylch y drefn gyflwyno rhwng dogfennau'r cynllun hwn a dogfennau cynlluniau datblygu eraill megis y Cynlluniau Datblygu Strategol arfaethedig.

5.23 Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ac amheuon ynghylch y broses ymgynghori ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd rhai o'r farn nad yw cyfnod ymgynghori o 12 wythnos yn ddigon hir a chodwyd pryderon hefyd ynghylch cynnwys y cyhoedd/rhanddeiliaid yn y broses hon.

5.24 Codwyd mater arfarniad o gynaliadwyedd gan rai a oedd o'r farn y dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol / asesiad priodol. Roedd eraill o'r farn y dylid cynnal arfarniad o'r iaith Gymraeg.

5.25 Codwyd mater craffu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan lawer o ymatebwyr. Roedd cefnogaeth gref ymhlith pob sector o blaid archwilio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gyhoeddus yn hytrach na thrwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno ac roeddent o'r farn y gall yr Arolygiaeth Gynllunio neu'r grŵp cynghori roi cymorth neu gyngor i'r Cynulliad yn ystod y broses graffu. Roedd monitro ac adolygu'r fframwaith, adolygu polisi cenedlaethol a'r angen am sail dystiolaeth gadarn

yn rhai o'r materion a godwyd gan ymatebwyr o ran sicrhau gwaith craffu priodol.

5.26 Cododd rhai ymatebwyr faterion mwy cyffredinol a oedd yn ymwneud â chanllawiau / polisi, gan ofyn am eglurhad yn y rhan fwyaf o achosion ynghylch meysydd polisi megis Ardoll Seilwaith Cymunedol a Seilwaith.

5.27 Cododd yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Fframwaith Datblygu Cenedlaethol bryderon ynghylch materion gan gynnwys y pryder y byddai'n arwain at benderfyniadau yn cael eu gwneud yn ganolog yn hytrach nag mewn ardaloedd lleol ac y byddai'n cynyddu cymhlethdod drwy ychwanegu rhagor o haenau at y system gynllunio. Cododd ymatebwyr eraill nad oeddent yn cefnogi'r cynnig gwestiynau am wahanol faterion gan gynnwys a fyddai digon o adnoddau i gyflwyno'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

**Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylid integreiddio Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru i greu un ddogfen?**

5.28 Roedd cryn gefnogaeth i'r cynigion hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (126 o ymatebwyr neu 88.1%) yn cytuno y dylid integreiddio Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru i greu un ddogfen.

5.29 Defnyddiwyd llawer o'r un materion o blaid ac yn erbyn y cynnig. Mae'r themâu sydd wedi dod i'r amlwg yn amrywio o faterion ymarferol, megis peidio â darparu cymaint o wybodaeth, dyblygu a'r angen am bolisi cyfredol, i gwestiynau a sylwadau yn gysylltiedig â pholisi sy'n ymwneud ag integreiddio, symleiddio ac egluro polisi ac a allai hyn arwain at well polisi neu gynnwys polisi llai manwl ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru.

5.30 Dadleuodd rhai y byddai cadw'r dogfennau ar wahân yn sicrhau y byddent yn parhau i fod yn hawdd i'w deall ac na fyddai gwahanol elfennau polisi, o reidrwydd, yn cael eu diweddaru yr un mor aml.

5.31 Roedd sawl ymatebydd o'r farn bod cynllunio mwynau yn faes arbenigol ac na fyddai ei gyfuno â Pholisi Cynllunio Cymru yn ychwanegu gwerth at Bolisi Cynllunio Cymru, yn hytrach y byddai'n gwneud Polisi Cynllunio Cymru yn fwy beichus. Roedd eraill o'r farn y byddai uno'r dogfennau yn arwain at golli manylion am fwynau ac y câi elfennau polisi Polisi Cynllunio Mwynau Cymru eu diystyru. Roedd y rhai a oedd o blaid y cynnig o'r farn y gallai dogfen bolisi syml ac integredig fod yn fanteisiol. Roedd rhai o'r farn, oherwydd natur arbenigol a thechnegol Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, y byddai angen ymdrin â materion yn fanylach.

5.32 Roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr, p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig neu wedi dewis peidio â rhoi ateb penodol y naill ffordd na'r llall, o'r farn mai'r angen am fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol tryloyw, clir, hawdd ei ddeall, cyfredol, dibynadwy a chadarn oedd yr ystyriaeth bwysicaf. Yn gyffredinol, rhoddodd ymatebwyr lawer o bwys ar y gallu i ganfod yn hawdd ac ar unrhyw adeg beth oedd yn berthnasol o ran polisi, canllawiau a deunydd cefndir. Roedd llawer o'r farn, pe bai'r cynnig i uno Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru yn cael ei weithredu, y dylid manteisio ar y cyfle i adolygu'r polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas at y diben ac yn cyflawni'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori mewn modd priodol. O ganlyniad, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai uno'r ddwy ddogfen bolisi yn cyflwyno syrthni i'r system gynllunio ar adeg pan ddylid bod yn annog cyflwyno datblygiadau.

5.33 Roedd llawer o ymatebwyr yn awyddus i sicrhau yr ymgynghorir â rhanddeiliaid ymhellach ac y cânt eu cynnwys yn y broses o ddatblygu polisi ar y cyd yn y dyfodol.

5.34 Manteisiodd nifer o ymatebwyr ar y cyfle i wneud sylwadau cyffredinol ar feysydd o fudd polisi, gan awgrymu na ddylid gwanhau'r rhain fel rhan o unrhyw broses integreiddio neu y dylid gwella gwahanol agweddau ar bolisi. Ymhlith y materion a godwyd yn hyn o beth mae nifer y Nodiadau Cyngor Technegol a'u perthnasedd a meysydd eraill o ddiddordeb.

**Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno y dylid paratoi cyfres graidd o bolisïau rheoli datblygu i'w cymhwyso'n gyson gan bob awdurdod cynllunio lleol?**

5.35 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen llunio set graidd o bolisïau rheoli datblygu i'w cymhwyso'n gyson gan bob awdurdod cynllunio lleol. Roedd 127 o ymatebwyr (85.2% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cefnogi'r cynnig.

5.36 Nododd llawer o ymatebwyr ei bod yn bwysig sicrhau darpariaeth gynllunio unffurf ac y byddai set graidd o bolisïau rheoli datblygu, a gymhwysir yn gyson gan bob awdurdod cynllunio lleol, yn sicrhau polisïau mwy cyson a chliriach gan helpu i symleiddio’r system gynllunio. Roedd ymatebwyr o'r farn bod y dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ac na ellid cyfiawnhau sefyllfa lle mae gan awdurdodau cynllunio lleol unigol bolisïau ar wahân ar faterion cyffredinol sy'n berthnasol i bob rhan o Gymru. Nododd rhai ymatebwyr y byddai'r dull gweithredu hwn o fudd i geiswyr, cymunedau ac ymarferwyr ac y byddai'n lleihau costau ac yn sicrhau bod llai o adnoddau yn cael eu gwastraffu.  Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r dull gweithredu hwn yn annog gwaith datblygu yng Nghymru drwy sicrhau bod gan ddatblygwyr ddealltwriaeth glir o'r polisïau cynllunio sy'n gymwys ledled Cymru a fydd yn llywio penderfyniadau ynghylch eu cynigion datblygu ac yn lleihau nifer yr apeliadau cynllunio. At hynny, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai'r dull gweithredu hwn yn lleihau hyd, cymhlethdod a chost Cynlluniau Datblygu Lleol ac yn helpu i sicrhau y caiff Cynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol eu llunio a'u hadolygu yn gyflym.

5.37 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gellir defnyddio'r set o bolisïau rheoli datblygu cenedlaethol eisoes at ddibenion rheoli datblygu.  Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr na fyddai cynnwys y polisïau o fewn Polisi Cynllunio Cymru yn golygu y rhoddir yr un pwys arnynt ag a roddir ar bolisïau Cynlluniau Datblygu Lleol statudol.

5.38 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gellid sicrhau y rhoddir statws statudol i'r polisïau craidd drwy ehangu cwmpas y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Nododd nifer o ymatebwyr y dylid cynnwys y set graidd o bolisïau o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn sicrhau bod iddynt statws cynllun datblygu ac mai dim ond fel rhan o'r broses o archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol, pan gynigir amrywiadau lleol, y dylid ystyried y polisïau.

5.39 Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod angen sicrhau bod y polisïau craidd yn cael eu diweddaru'n gyson. Yn benodol, gwnaed sylwadau ynghylch yr angen am ganllawiau ar y gydberthynas rhwng y Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd eisoes a'r set o bolisïau craidd a'r ffordd y dylid cymhwyso'r polisïau rheoli datblygu presennol o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Soniodd ymatebwyr am yr angen am waith monitro rheolaidd er mwyn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn cymhwyso'r set graidd o bolisïau rheoli datblygu

yn gyson a gwnaethant awgrymu y dylai'r rôl hon gael ei chyflawni gan y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio.

5.40 Gofynnodd cryn nifer o ymatebwyr am eglurhad ynglŷn â phwy a fyddai'n cymryd rhan yn y broses o ddiffinio a llunio'r set graidd o bolisïau a gwnaethant awgrymu bod yn rhaid eu datblygu gan gydweithio'n agos ag awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid ledled Cymru. Gofynnodd ymatebwyr hefyd sut yr ymgynghorid ynghylch y set graidd o bolisïau a sut y creffid arnynt cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar ei ffurf derfynol neu fabwysiedig.

5.41 Nododd ymatebwyr fod angen ystyried yn fanwl pa bynciau y dylid eu cynnwys o fewn y ‘set graidd ’ gan gynnwys yr angen i sicrhau bod y set graidd o bolisïau yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy a thrin ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn gyfartal.

5.42 Nododd cryn nifer o ymatebwyr fod angen hyblygrwydd yn y set graidd o bolisïau er mwyn sicrhau y caiff materion lleol ac amgylchiadau penodol eu cydnabod. Roedd angen thema gyson er mwyn sicrhau y gellid addasu'r set graidd o bolisïau neu ychwanegu ati er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol lle y gellir cyfiawnhau dull gweithredu sydd wedi'i deilwra i'r ardal leol.

**Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y bydd yr hierarchaeth datblygu arfaethedig yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur gan ddibynnu ar eu buddiannau a'u heffeithiau tebygol?**

5.43 Roedd cytundeb cyffredinol y bydd yr hierarchaeth datblygu yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur gan ddibynnu ar eu manteision a'u heffeithiau tebygol. Roedd 99 o ymatebwr (70.7% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cefnogi'r cynnig a nodwyd ei fod yn ei gwneud yn bosibl i geisiadau gael eu penderfynu mewn modd priodol a chymesur a ddylai sicrhau hyblygrwydd a dull cydlynol o ymdrin â gwaith datblygu ar wahanol lefelau o lywodraeth.

5.44 Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn dod â manteision i ymgeiswyr, awdurdodau cynllunio lleol a chymunedau. Byddai ymgeiswyr sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio yn glir o'r cychwyn cyntaf ynghylch faint o wybodaeth sydd angen ei chyflwyno gyda'r cais cynllunio a sut a phryd y penderfynid ar y cais, a fyddai'n ei gwneud hi'n haws ymdrin â'r system gynllunio. Byddai'n ei gwneud yn bosibl i flaenoriaethu adnoddau awdurdodau cynllunio lleol ac ymgyngoreion statudol tuag at y ceisiadau â'r manteision a'r effeithiau mwyaf posibl; a byddai gan gymunedau fwy o gyfleoedd i gymryd rhan.

5.45 Er bod y mwyafrif helaeth yn cefnogi'r cynnig, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn na allent wneud rhagor o sylwadau nes i wybodaeth gael ei darparu am nifer y ceisiadau ym mhob haen o'r hierarchaeth a nes i sicrwydd gael ei roi y caiff barn cymunedau ei hystyried ac y bydd cynlluniau yn destun gwaith craffu amgylcheddol. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylid cymhwyso'r hierarchaeth yn hyblyg er mwyn caniatáu disgresiwn lleol, gan gydnabod y gall gwaith datblygu ar raddfa fach a chyd-destunau gwahanol (rhai trefol a gwledig, er enghraifft), gael effeithiau gwahanol. Awgrymwyd hefyd fod yr hierarchaeth fel petai'n hwyluso datblygiadau mawr tra bod cynlluniau llai o faint yn parhau i fod yn agored i brosesau awdurdodau cynllunio lleol ac y byddai lleihau nifer yr awdurdodau cynllunio lleol yn ddull mwy cyson a chymesur o ymdrin â cheisiadau cynllunio.

5.46 Cyflwynodd llawer o ymatebwyr sylwadau manwl ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn na chaiff y cynigion ar gyfer sefydlu proses gwneud cais ar wahân ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael fawr ddim effaith oherwydd y nifer fach o geisiadau cynllunio strategol a gyflwynir ac y byddai'n creu dryswch ac ansicrwydd yn y system. Roeddent hefyd yn amau a fyddai Llywodraeth Cymru yn perfformio'n well nag awdurdodau cynllunio lleol a nodwyd y byddai angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r rôl newydd hon. Awgrymwyd hefyd y dylid pennu'r un targedau statudol ar gyfer proses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol â'r rhai a bennir ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ac y dylai fod proses apelio glir. Ystyriwyd bod adolygiadau barnwrol yn ddrud ac yn llafurus. Cododd awdurdodau cynllunio lleol bryderon ynghylch colli ffioedd cynllunio, yn arbennig am y byddai'n

ofynnol iddynt neilltuo adnoddau o hyd ar gyfer proses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

5.47 Argymhellodd ymatebwyr nifer o ddiwygiadau i'r hierarchaeth gan gynnwys haen ychwanegol ar gyfer ceisiadau ar gyfer prosiectau ynni sy'n cynhyrchu mwy na 50 megawat; haen ychwanegol ar gyfer ‘Hysbysiad Amaethyddol’ rhwng datblygiad a ganiateir a datblygiad lleol; hierarchaeth sy'n ymwneud yn agos â Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol; ychwanegu Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol at frig yr hierarchaeth; a fframwaith penderfynu mwy cynhwysfawr, er enghraifft, cynnwys cynigion ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

**Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol fel y'u nodir yn Atodiad B?**

5.48 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (80 o ymatebwyr neu 72.4%) yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a nodir yn Atodiad B i'r papur ymgynghori.

5.49 Nododd ymatebwyr y byddai'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cysoni'r system gynllunio yng Nghymru â'r broses a ddefnyddir yn y DU i benderfynu ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oes gan awdurdodau cynllunio lleol unrhyw arbenigedd mewn perthynas â rhai neu lawer o'r materion sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau o'r fath.

5.50 Gofynnodd ymatebwyr am ragor o wybodaeth am y sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r trothwyon a'r meini prawf. Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn amau math, nifer a graddfa'r ceisiadau a nodwyd gan y trothwyon a'r meini prawf ac a fyddai'r weithdrefn yn werth chweil o ganlyniad. Gwnaed sylwadau ynghylch ystyried effeithiau gwaith datblygu ac y dylid ystyried ffactorau eraill yn ogystal â throthwyon. Nododd nifer o ymatebwyr fod cwmpas Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael ei ehangu ac y dylai Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, yn yr un modd, fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer diwygio ac ymestyn. Nododd rhai ymatebwyr y dylid ychwanegu categori newydd ar gyfer datblygiadau cysylltiedig na ellir eu cynnwys mewn Gorchymyn Caniatâd Datblygu yng Nghymru er mwyn cysoni prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn genedlaethol a'u gwneud yn llai tameidiog.

5.51 Cafwyd cwestiynau a sylwadau gan rai ymatebwyr ynghylch defnyddio dogfennau polisi cenedlaethol megis Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i nodi Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Er bod y mwyafrif helaeth yn cefnogi'r cynnig hwn nododd rhai ymatebwyr y dylai ceisiadau o'r fath barhau i gael eu penderfynu gan awdurdodau cynllunio lleol, gyda'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn cynorthwyo ac yn gwella sgiliau awdurdodau cynllunio lleol i ymgymryd â'r broses hon a chyda chyfranogiad llawn pobl leol a rhanddeiliaid eraill. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys categorïau ychwanegol o ddatblygiad at y diffiniad; er enghraifft, unedau fferm ddiwydiannol, seilwaith gwyrdd a glas a datblygiadau mwynau. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad pellach ynglŷn â'r trothwyon ar gyfer datblygiadau ynni a chyfleusterau harbwr.

**Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Sylweddol a nodir yn Atodiad B?**

5.52 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (cyfanswm o 92 neu 69.7% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. Nododd ymatebwyr fod y cynigion yn cyd-fynd â'r categorïau a'r trothwyon ar gyfer Datblygiadau Sylweddol fel y'u diffinnir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) Cymru 2012/801 ac roeddent o'r farn ei bod yn dderbyniol ac yn rhesymol cadw'r trothwyon presennol. Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr nad yw maint datblygiad, o reidrwydd, yn adlewyrchu cymhlethdod nac effaith datblygiad, yn arbennig wrth gymharu datblygiadau sylweddol mewn ardaloedd trefol a gwledig, er enghraifft.

5.53 Nododd rhai ymatebwyr y gall datblygiad ar raddfa fach gael effaith anghymesur ar yr amgylchedd hanesyddol, yn arbennig mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol.

5.54 O ran datblygiadau mwynau, nododd ymatebydd nad yw'r trothwyon o ran arwynebedd safle yn cyd-fynd â Rhan 23B o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Nododd yr un ymatebydd, er bod datblygiadau gwastraff yn cael eu hystyried yn ddatblygiadau sylweddol, y gellid ystyried bod rhai datblygiadau gwastraff, er enghraifft gorsafoedd trosglwyddo gwastraff ar raddfa fach, yn ddatblygiadau lleol.

5.55 Roedd cryn nifer o ymatebwyr yn anghytuno ac roeddent o'r farn bod y trothwyon ar gyfer datblygiadau sylweddol yn rhy isel ac y byddai trothwyon uwch yn adlewyrchu'n well yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno ceisiadau cynllunio sylweddol a'r gost sy’n gysylltiedig â hynny. Nododd llawer o ymatebwyr y dylid codi'r trothwy ar gyfer datblygiadau preswyl yn benodol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr drothwyon ar gyfer datblygiadau preswyl sylweddol sy'n amrywio o 20 i 50 uned.

5.56 Roedd cryn gefnogaeth i gyflwyno categori “sylweddol-sylweddol” neu gategori strategol o ddatblygiad y byddai ganddo gyfnod penderfynu statudol hwy. Awgrymodd ymatebwyr eraill y gallai Trydydd Fframwaith Cynllunio drafft Llywodraeth yr Alban fod yn sail i'r trothwyon ar gyfer datblygiadau sylweddol, neu y dylai pob datblygiad sy'n destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gael ei ddosbarthu fel datblygiad “sylweddol”. Neu, yn lle gwneud hynny, awgrymwyd y dylid rhoi'r gorau i drothwyon cenedlaethol, gan ganiatáu i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu dull cymesur o ymdrin â cheisiadau.

5.57 Nododd nifer o ymatebwyr y dylid ychwanegu tyrbinau gwynt mawr a chanolig, archfarchnadoedd a datblygiadau mawr eraill at y rhestr o ddatblygiadau sylweddol yn Atodiad B.

**Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno y dylai ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) fod yn destun hysbysiad ac ymgynghoriad cyn ymgeisio gorfodol?**

5.58 Roedd cryn gefnogaeth i'r cynigion hyn ac roedd 97.3% neu 144 o ymatebwyr yn cytuno y dylai Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol fod yn destun hysbysiad ac ymgynghoriad cyn ymgeisio gorfodol. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio yn ei gwneud yn bosibl i ystyried goblygiadau'r datblygiad cyn gynted â phosibl, hyrwyddo ymgysylltu mewn modd ystyrlon ac arwain at gynllun o ansawdd uwch. Roedd rhai hefyd yn ystyried bod y cynigion yn fodd i osgoi oedi wrth brosesu ceisiadau a'i gwneud yn bosibl i safbwyntiau ymgyngoreion statudol gael eu hadlewyrchu'n well yn y cynllun. Roedd gwahanol ymatebwyr hefyd yn cefnogi'r cynnig y dylid cyflwyno Datganiad am yr Ymgynghori. Cyflwynwyd sawl cafeat i rai datganiadau o gefnogaeth gan gynnwys datgan y dylai lefel y gweithgarwch ymgynghori cyn ymgeisio fod yn gymesur â'r cynnig datblygu ac na ddylai fod yn rhagnodol heb fod angen ac y dylid darparu adnoddau priodol ar gyfer cyrff sy'n cymryd rhan yn y cam cyn ymgeisio.

5.59 Cyflwynodd nifer o ymatebwyr wahanol sylwadau ar rôl awdurdodau cynllunio lleol yn y broses, gan gynnwys awgrymu bod angen ymgynghori ag awdurdodau a chynghorau cymuned cyfagos yn awtomatig o dan amgylchiadau penodol. Roedd sylwadau eraill yn ymwneud â materion gweithdrefnol, gan gynnwys pwy sy'n arwain yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, yr angen i roi trefniadau hysbysebu a chyfranogi priodol ar waith ac anghytuno y gellid ymgorffori gwaith asesu priodol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio. Cafwyd sylwadau hefyd ar yr angen i gysoni'r cynigion a darpariaethau Deddf Gynllunio 2008, gan gynnwys ystyried ceisiadau cysylltiedig a darparu gwasanaeth cyfryngu fel rhan o'r cynigion.

5.60 Mynegwyd rhai pryderon hefyd ynghylch rôl ymgyngoreion statudol o ran ymateb i geisiadau am ymgynghoriad yn ystod y broses cyn ymgeisio, gan gynnwys ystyried y dylai ymgyngoreion fod yn ymrwymedig i ddarparu ymatebion amserol.

5.61 Cafwyd nifer fach o sylwadau a oedd yn anghytuno â'r cynigion hyn. Ymhlith y gwrthwynebiadau a gafwyd roedd pryderon bod y cynigion yn anhyblyg ac y gallent arwain at or-ragnodi'r system, a fyddai'n groes i'r agenda symleiddio ac a fyddai'n achosi oedi pellach. Roedd ymatebwyr eraill hefyd yn feirniadol o ddiwylliant canfyddedig sydd o blaid datblygwyr mwy o faint, gan fod y cynigion yn golygu, o bosibl, mai dim ond grwpiau ag adnoddau da a all gymryd rhan yn y broses. Roedd rhai o'r farn na all y cynigion ddisodli archwiliad trylwyr o'r cynnig ac na fyddant, o bosibl, yn arwain at amserlenni byrrach ar gyfer penderfynu ar geisiadau ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.

5.62 Roedd hi'n amlwg bod rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch y cynigion ar gyfer datblygiadau sylweddol y cynigir y dylent fod yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio gorfodol hefyd.

**Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno y dylid codi ffi am gyngor cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) arfaethedig?**

5.63 Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr o blaid codi ffi am gyngor cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac mae 108 o ymatebwyr (81.8% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig.

5.64 Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai cyngor cyn ymgeisio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn creu gwaith i'r cyrff hynny dan sylw, gan gynnwys achosion lle roedd angen ymateb arbenigol, a fyddai'n effeithio ar adnoddau. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi cyngor gael eu talu gan yr ymgeisydd. At hynny, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y bydd ffi yn atal datblygwyr rhag cyflwyno cynigion ar hap ac yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar gyflwyno cynlluniau a luniwyd yn ofalus; gan sicrhau rhywfaint o ymrwymiad a difrifoldeb o'r dechrau.

5.65 Nododd nifer o ymatebwyr ei bod yn rhy gynnar i wneud sylwadau heb gael eglurhad ynglŷn â lefel y ffi a gaiff ei chodi. Awgrymodd ymatebwyr, pe bai ffi yn cael ei chodi, y dylid pennu safonau cenedlaethol a fyddai'n sicrhau bod cyngor a roddir yn gyson ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor gael ei ddarparu mewn modd amserol. Nododd ymatebwyr y dylai unrhyw ffioedd a bennir fod yn gymesur â'r datblygiad arfaethedig, wedi'u graddio yn ôl y cyngor a roddir ac yn gyson ledled Cymru. Cafwyd sylwadau hefyd a nododd fod angen ystyried lefel a chwmpas mewnbwn i gyngor cyn ymgeisio ymhellach a gofynnodd rhanddeiliaid am gael cymryd rhan yn y broses o bennu ffi ac i awdurdodau cynllunio lleol gael cyfran o'r ffi honno am gymryd rhan yn y broses cyngor cyn ymgeisio. At hynny, nododd nifer o awdurdodau cynllunio lleol y dylent allu codi tâl am agweddau eraill ar y broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol y maent yn gyfrifol amdanynt gan gynnwys cyflawni amodau cynllunio. Nododd ymatebwyr hefyd y byddai angen i bob ymgynghorai ar gyfer ceisiadau cynllunio gytuno ar unrhyw weithdrefn codi tâl gan fod rhai eisoes yn defnyddio eu cyfundrefn codi tâl eu hunain, Dŵr Cymru er enghraifft.

5.66 Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylid darparu gwasanaeth am ddim gyda ffi'r cais cynllunio yn talu costau cyn ymgeisio ac roeddent yn pryderu y gallai codi ffi am gyngor cyn ymgeisio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol osod cynsail ar gyfer codi ffioedd am ddatblygiadau o bob maint yn y dyfodol. Nododd ymatebwyr y gallai codi tâl am gyngor cyn ymgeisio atal datblygwyr rhag ceisio cyngor a rhwystro gwaith datblygu, a allai fod wedi sicrhau manteision i'r wlad gyfan yn hytrach na dim ond yr awdurdod codi tâl. Roedd rhai ymatebwyr yn amau a oes tystiolaeth bod codi ffioedd am gyngor cyn ymgeisio yn gwella cyflwyniadau. Nododd ymatebwyr hefyd, os nad yw'r gwasanaeth a ddarperir ar y cam cyn ymgeisio yn ddigon da, na datgan cyngor cyn ymgeisio warantu y bydd cais cynllunio yn llwyddiannus am ei bod yn bosibl y bydd y Gweinidog yn barnu'n wahanol.

**Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno mai Arolygiaeth Gynllunio Cymru yw'r corff mwyaf priodol i ymgymryd â'r gwaith o brosesu cais ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)?**

5.67 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (cyfanswm o 130 neu 89.0% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor mai Arolygiaeth Gynllunio Cymru a ddylai fod yn gyfrifol am brosesu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Ymhlith y sylwadau cefnogol a gafwyd mae cyfeiriad at y ffaith y byddai'r cynnig yn adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, a fyddai'n sicrhau cysondeb a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu. Nododd ymatebwyr hefyd fod gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru yr arbenigedd a'r enw da i ymgymryd â'r dasg hon. At hynny, nododd ymatebwyr y gallai'r cynnig hwn sicrhau bod ceisiadau o'r fath yn cael eu prosesu'n annibynnol.

5.68 Nododd ymatebwyr y dylai Arolygiaeth Gynllunio Cymru weithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru wrth brosesu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Nododd nifer o ymatebwyr y dylid darparu adnoddau priodol ar gyfer Arolygiaeth Gynllunio Cymru fel nad amherir ar gyfrifoldebau presennol (megis Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol a phrosesu ceisiadau cynllunio neu geisiadau a alwyd i mewn). Nododd sawl ymatebydd y dylai Arolygiaeth Gynllunio Cymru weithio i ragnodi amserlenni ar gyfer prosesu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Nodwyd hefyd, pe bai Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ymgymryd â'r gwaith o brosesu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, y dylai pob rhanddeiliad a chorff, gan gynnwys cymunedau lleol, grwpiau â diddordeb arbenigol a busnesau, gael cyfle i gymryd rhan yn y weithdrefn hon. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid rhoi cyfran o'r ffi am brosesu ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol i awdurdodau cynllunio lleol er mwyn hwyluso eu mewnbwn i'r broses gwneud cais.

5.69 Mynegodd ymatebwyr eraill bryderon y byddai'r dull gweithredu yn gwanhau'r broses ddemocrataidd ac yn golygu bod y gymuned leol yn chwarae llai o rôl ac y rhoddir llai o sylw i wybodaeth leol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, sy'n awgrymu y dylai awdurdodau cynllunio lleol barhau i benderfynu ar y ceisiadau hyn. Nododd rhai ymatebwyr y gallai fod gwrthdaro buddiannau, rhywfaint o ddryswch a diffyg didueddrwydd pe bai Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn gwneud argymhellion ynghylch cymeradwyo ceisiadau o'r fath ac yn penderfynu hefyd ar apeliadau dilynol sy'n ymwneud â'r cynigion datblygu.

5.70 Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau penodol i'r cynnig hwn. Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn cefnogi'r egwyddor mai Arolygiaeth Gynllunio Cymru a ddylai brosesu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar yr amod y deellir ac yr ystyrir y weithdrefn ar gyfer apelio a chynnal Adolygiad Barnwrol yn llawn.

**Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno mai dim ond un cylch o ddiwygiadau y dylid ei ganiatáu i gais ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ar ôl iddo gael ei gofrestru'n ffurfiol?**

5.71 Nid oedd gwahaniaeth barn sylweddol. O'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, roedd mwyafrif bach (53.1% neu 69 o ymatebwyr) yn anghytuno mai dim ond un cylch o ddiwygiadau y dylid ei ganiatáu i gais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ar ôl iddo gael ei gofrestru'n ffurfiol.

5.72 Roedd nifer o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynigion. Ymhlith y rhesymau a roddwyd roedd y ffaith eu bod yn anhyblyg ac yn groes i ysbryd cynllunio cadarnhaol, na fyddent yn sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer y cynllun, eu bod yn ddull gweithredu 'sy'n addas i bob sefyllfa' nad yw'n briodol nac yn gymesur, y gallent arwain at fwy o ddiwygiadau ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud, na fyddent yn ddull weithredu sy'n gyson â mathau eraill o geisiadau ac y byddent yn lleihau cyfranogiad y cyhoedd. Cyfeiriwyd at yr adolygiad o'r drefn ganiatâd ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf 2008 er mwyn esbonio pam y dylid caniatáu i newidiadau gael eu gwneud i gais. Nodwyd hefyd na fyddai'r amser penodedig ar gyfer penderfynu ar gais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ddigon hir i ddarparu ar gyfer diwygiadau.

5.73 Nid oedd unrhyw gonsensws ar ddull gweithredu amgen. Roedd rhai ymatebwyr o blaid gwrthod caniatáu i ddiwygiadau gael eu gwneud i gynlluniau. I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr eraill o'r farn ei bod yn bosibl y bydd angen camau diwygio ychwanegol, yn amrywio o ddau gylch i gyfleoedd di-ben-draw. Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai fod eu hangen lle mae amgylchiadau yn galw am wneud newidiadau pellach i'r cais er mwyn gwella ansawdd y cynllun neu sicrhau ei fod yn dderbyniol (a rhoddwyd enghreifftiau o sefyllfaoedd lle y gallai fod angen gwneud hynny). Nodwyd hefyd y gallai'r anallu i wneud newidiadau orfodi ymgeisydd i dynnu cais yn ôl, a fyddai'n arwain at wariant ac oedi pellach tra bod eraill o'r farn mai dim ond drwy gyfarwyddyd yr Arolygiaeth neu hysbysiad priodol y dylid caniatáu diwygiadau. Roedd rhai hefyd o'r farn y dylid ymdrin ag unrhyw newidiadau mawr i gynllun ar y cam cyn ymgeisio. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ac y dylid rhagnodi mathau a chanllawiau ar gyfer diwygiadau.

5.74 Cyflwynwyd nifer fawr o sylwadau cyffredinol ar y cynigion, yr oedd rhai ohonynt yn gofyn am ychwanegiadau neu newidiadau. Roedd y rhain yn cynnwys nodi y dylid cyflwyno tâl am ddiwygiadau, y byddai rhai diwygiadau yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, y dylid ystyried proses fyrrach ar gyfer ailgyflwyno cynllun ac y dylai'r cynigion gael eu hategu gan ganllawiau. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr y dylid caniatáu i ddiwygiad pellach gael ei wneud i gynllun o dan amgylchiadau penodol. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai cyfyngu ar nifer y diwygiadau y gellir eu gwneud yn effeithio'n benodol ar y rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'r broses ymgynghori. Nodwyd hefyd y byddai'r cynigion yn mynd yn groes i'r cynigion ar gyfer

apeliadau yr ymgynghorwyd yn eu cylch o dan gwestiwn 19 y ddogfen Cynllunio Cadarnhaol.

5.75 I'r gwrthwyneb, cyflwynwyd nifer fawr o sylwadau o blaid y cynigion. Roedd yr ymatebwyr hynny o'r farn y byddai'r cynigion yn sicrhau bod ymgeiswyr yn canolbwyntio ar gyflwyno ceisiadau cyflawn ac yn annog ymgyngoreion i gyfranogi'n llawn, yn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol, yn cyflymu'r broses gwneud cais, yn arwain at lai o ddryswch i'r cyhoedd ac eraill ac yn sicrhau mwy o dryloywder. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y problemau sy'n gysylltiedig â diwygio ceisiadau yn barhaus, gan gynnwys problemau cyllid i awdurdodau cynllunio lleol. Roedd ymatebwyr eraill yn cefnogi'r cynigion gyda chafeatau, gan gynnwys bod y cynnig yn caniatáu hyblygrwydd, yn darparu ar gyfer ail-ymgynghori â phartïon ynghylch y cynnig a chynnal trafodaethau anffurfiol rhwng diwygiadau, nad yw'n golygu y bydd llai o gyfle i gynnal trafodaethau cyn ymgeisio brwd a diddorol ar yr amod y caiff cynlluniau a luniwyd yn wael eu gwrthod o hyd.

5.76 Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurhad ynglŷn â'r hyn a fyddai'n gyfystyr â mân ddiwygiad ac am ddiffiniad clir o gwmpas mân ddiwygiad.

**Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ymdrin â chaniatadau cysylltiedig?**

5.77 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (88.1% neu 111 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ymdrin â chaniatadau cysylltiedig.

5.78 Roedd yr ymatebion hynny a gyflwynwyd o blaid y cynigion o'r farn y byddent yn sicrhau manteision o ran darparu ar gyfer ystyried cynllun yn fanylach. Nododd sylwadau a gafwyd y byddai un corff archwilio yn cyflymu'r broses, gan sicrhau eglurder ac atal gwastraff. Roedd sylwadau cefnogol eraill o'r farn y byddai'r cynigion yn cydymffurfio â Rheoliadau Amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd ac yn sicrhau cyfranogiad y cyhoedd, y byddent yn darparu ar gyfer hyblygrwydd wrth gyflwyno ceisiadau cysylltiedig, y byddent yn fanteisiol i ymgyngoreion am y byddent yn gallu ystyried effaith y prosiect yn llawn ar ddechrau'r broses ymgysylltu ac y byddent yn helpu i atal partïon rhag parhau i gyflwyno gwrthwynebiadau i gynigion drwy geisiadau atodol. Nododd nifer o sylwadau o blaid y cynigion y dylai cyrff rhoi caniatâd arferol allu gwneud penderfyniadau amserol ac, felly, nad oedd angen cyflwyno ceisiadau ar wahân. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor ar yr amod y câi ceisiadau cysylltiedig eu hasesu'n drylwyr ac yr ymdrinnid â'r risg y câi cais ei wrthod.

5.79 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid cynnwys cyfundrefnau caniatâd o fewn y broses ceisiadau cysylltiedig tra cyfeiriodd eraill at enghreifftiau o geisiadau y dylid eu hepgor. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylai ceisiadau cysylltiedig a'r modd yr ymdrinnir â hwy adlewyrchu cyfundrefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a nodir yn y Ddeddf Gynllunio (2008), gan helpu i sicrhau cysondeb rhwng prosesau. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid symleiddio'r cynigion gan greu un broses gwneud cais a rhoi caniatâd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a chaniatadau cysylltiedig. Nododd rhai eu bod o blaid cyflwyno darpariaethau atodol ar gyfer galw ceisiadau i mewn gan yr ystyrir eu bod yn ddefnyddiol i atal oedi a achosir gan gyrff rhoi caniatâd. Cafwyd sylwadau a chwestiynau ynghylch pwy a ddylai benderfynu beth yw cais cysylltiedig. Honnodd rhai ymatebwyr y dylid cael cytundeb ffurfiol gan y corff rhoi caniatâd arferol fesul achos cyn iddo gael ei gynnwys fel cais cysylltiedig. Ymhlith y diwygiadau yr awgrymir y dylid eu gwneud i'r cynigion mae darpariaethau ar gyfer ystyried gwaith asesu / gwybodaeth amgylcheddol a diwygio rheolau gweithdrefnau sy'n cydgysylltu'r cyfundrefnau caniatâd gwahanol wrth ystyried y ceisiadau hynny.

5.80 Gofynnodd sawl ymatebydd am eglurhad pellach ynglŷn â'r ffordd y byddai'r cynigion yn gweithredu yn ymarferol. Cyfeiriwyd at y goblygiadau o ran adnoddau yn yr Arolygiaeth Gynllunio a chysondeb ag asiantaethau trawsffiniol fel materion sydd angen eu hystyried. Codwyd pryderon hefyd ynghylch cyfranogiad y cyhoedd yn y broses a lefel y gweithgarwch craffu ar gais cysylltiedig.

5.81 Cafwyd nifer o sylwadau a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion. Roedd y gwrthwynebiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â'r angen am y cynigion lle ceir pwerau i alw ceisiadau i mewn. Roedd sylwadau eraill a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion yn ymwneud â'r egwyddor ei bod yn well ymdrin â'r cynigion yn lleol, gan awdurdodau cynllunio lleol er enghraifft.

**Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno y dylai'r broses archwilio ddilyn gweithdrefn debyg i'r weithdrefn a gynigir ar gyfer ceisiadau a gaiff eu galw i mewn ac apeliadau?**

5.82 Roedd cefnogaeth i'r cynnig y dylai'r broses archwilio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ddilyn gweithdrefn debyg i'r weithdrefn a gynigir ar gyfer ceisiadau a gaiff eu galw i mewn ac apeliadau. Yn gyffredinol, roedd 84.4% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol yn cefnogi'r dull gweithredu.

5.83 Roedd ymatebwyr o'r farn bod y gweithdrefnau ar gyfer apeliadau a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn yn sefydledig ac yn dryloyw, sy'n darparu lefel briodol o waith craffu ac yn sicrhau bod y system gynllunio yn hawdd ei defnyddio ac yn gyson â system Lloegr a bod y broses archwilio mor agored â phosibl. Nododd ymatebwyr eraill y byddai'r cynigion yn ychwanegu hyblygrwydd at brosesau sy'n bodoli eisoes. Nododd eraill y gellid sicrhau bod prosesau sy'n bodoli eisoes yn fwy hyblyg.

5.84 Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig y dylid ystyried ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol gan ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig. Fodd bynnag, roedd cryn nifer o'r farn na ddylid defnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig i ystyried achosion cymhleth (gan gynnwys dileu'r hawl i ymddangos gerbron Arolygydd) am y gallai fod yn anodd ystyried materion cymhleth ac mae perygl y gallai'r cyhoedd gael ei eithrio. Roeddent o'r farn y dylid defnyddio gwrandawiadau yn amlach nag ymchwiliadau er mwyn darparu ar gyfer mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd.

5.85 Gwnaed nifer o awgrymiadau i wella'r broses archwilio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan gynnwys sefydlu proses gyflymach sy'n debyg i'r System Apeliadau gan Ddeiliaid Tai, i'w defnyddio gan swyddogion Llywodraeth Cymru i ymdrin â cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a'u hystyried, gyda hawl i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio; neu y dylai ceisiadau o'r fath gael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda Gweinidogion Cymru yn defnyddio pwerau i alw ceisiadau i mewn yn amlach. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynghylch y cynigion gan gynnwys pa agweddau ar y system apeliadau / galw i mewn yr oedd yn bwriadu eu mabwysiadu. Roedd nifer o sylwadau o blaid cyflwyno system debyg i'r un a ddefnyddir i ystyried Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan eu bod o'r farn bod gwrandawiadau o'r fath yn galluogi'r cyhoedd i chwarae mwy o ran a'u bod yn dibynnu llai ar eiriolwyr. Mynegodd eraill bryderon ynghylch yr amserlenni ar gyfer penderfynu ar geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol gan nodi y dylid mabwysiadu amserlenni statudol, fel sy'n digwydd yn achos ceisiadau ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

**Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno â'r rhaniad cyfrifoldebau a gynigir rhwng Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yn ystod y cam ar ôl gwneud penderfyniad?**

5.86 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (72.7% neu 88 o ymatebwyr) yn cytuno â'r rhaniad cyfrifoldebau a gynigir rhwng Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yn ystod y cam ar ôl gwneud penderfyniad.

5.87 Roedd sylwadau cefnogol yn cynnwys cydnabod bod gan awdurdodau cynllunio lleol y wybodaeth leol i gyflawni eu cyfrifoldebau, er bod yn rhaid ystyried y goblygiadau o ran sgiliau ac adnoddau. Roedd ymatebwyr eraill a oedd yn cefnogi'r cynigion o'r farn y byddent yn annog Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol i gydweithio'n agosach. Mae'r system sydd ar waith ar gyfer apeliadau a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn yn gweithio'n dda a gellid ei throsglwyddo i'w defnyddio i ymdrin â cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

5.88 Awgrymodd sylwadau a gafwyd ar y cynigion fod angen mesurau diogelwch fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau cyn i benderfyniadau gael eu gwneud, gan gynnwys pennu amserlenni targed ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a gwaith monitro canolog gan Weinidogion Cymru. Nododd nifer o ymatebwyr fod angen canllawiau llawn ar y rhaniad cyfrifoldebau arfaethedig. Ymhlith sylwadau eraill a gafwyd roedd rhai a awgrymodd y dylid rhoi cynllun dirprwyo cenedlaethol ar waith er mwyn sicrhau mai swyddogion awdurdodau cynllunio lleol a fydd yn dal i fod yn gyfrifol am benderfyniadau ar y cam ar ôl gwneud penderfyniad, rhoi cymorth ariannol i helpu awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu rôl ar y cam hwn ac y gallai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio helpu awdurdodau cynllunio lleol i wneud y gwaith hwn. Cyflwynwyd sylwadau hefyd ar y weithdrefn ar gyfer prosesau ar ôl gwneud penderfyniad y mae angen ymhelaethu / ymgynghori arnynt, gan gynnwys y rhaniad cyfrifoldebau ar y cam hwn a rôl ymgyngoreion statudol.

5.89 Cafwyd cwestiynau a sylwadau ynghylch cyflawni a gorfodi amodau cynllunio ar y cam ar ôl gwneud penderfyniad. Cafwyd sylwadau ac awgrymiadau penodol ynghylch defnyddio cytundebau Adran 106[1] ar y cam ar ôl gwneud penderfyniad. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys awgrymiadau y dylid cwblhau trafodaethau ynghylch cytundebau Adran 106cyn i benderfyniad gael ei wneud ac na ddylent gael eu cynnal ar y cam ar ôl gwneud penderfyniad ac roeddent yn cefnogi'r cynnig y dylid codi ffioedd am adennill costau sy'n gysylltiedig â llunio cytundebau Adran 106 a chyfranogiad a rôl Gweinidogion Cymru o ran hwyluso cytundebau Adran 106 a bod yn barti ynddynt.

5.90 Awgrymodd sylwadau eraill a gafwyd y gellid defnyddio system garlam ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cais neu fethiant i benderfynu ar

[1] Rhwymedigaethau cynllunio o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd)

gais ar y cam hwn. Awgrymodd rhai, yn achos methiant i benderfynu ar gais, y dylai Gweinidogion Cymru benderfynu ar y ceisiadau hyn.

5.91 Cafwyd sylwadau eraill a oedd yn gofyn am eglurhad neu ragor o fanylion am y cynigion, tra roedd eraill yn camdybio y gellir ailystyried cytundebau Adran 106 ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.

5.92 Roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch y rhaniad cyfrifoldebau a gynigir rhwng Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol gan gynnwys pryderon y gallai awdurdodau cynllunio lleol beri oedi i'r broses. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd mai Gweinidogion Cymru a ddylai gyflawni'r holl gyfrifoldebau mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

**Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno datganiad achos a datganiad o dir cyffredin drafft wrth gyflwyno apêl?**

5.93 Roedd cryn gefnogaeth i'r cynigion hyn ac roedd 104 o ymatebwyr (75.4% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno y dylid cyflwyno'r datganiad achos a'r datganiad o dir cyffredin drafft wrth gyflwyno apêl. Nododd ymatebwyr fod pawb yn cydnabod bod angen gwella'r system apelio er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau yn gyflymach a bod y system yn decach ac yn fwy tryloyw.

5.94 Nododd llawer o ymatebwyr y byddai'n fanteisiol iawn pe bai'r Datganiad Achos yn cael ei gyflwyno wrth gyflwyno apêl. At hynny, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r gofyniad i'r Datganiad o Dir Cyffredin gael ei gyflwyno wrth gyflwyno apêl sicrhau proses apelio decach ac y byddai'n sicrhau bod materion sydd i'w hystyried yn cael eu nodi'n glir ac na ddechreuir trafod meysydd y cytunwyd arnynt unwaith eto, a fyddai'n arbed costau ac amser yn y broses apelio ac yn sicrhau cyfnodau penderfynu byrrach. Nododd ymatebwyr fod hyn yn cael ei ystyried yn arfer gorau ar hyn o bryd a'i fod yn gweithio'n dda.

5.95 Cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol ar y cynigion, gan gynnwys barn gyffredinol y gallai fod yn briodol cynnwys datganiad achos i ymhelaethu ar sail yr apêl ond nid Datganiad o Dir Cyffredin. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr na ddylai'r ffaith bod Datganiad Achos wedi'i gyflwyno atal tystiolaeth ychwanegol rhag cael ei chyflwyno drwy broflenni tystiolaeth arbenigwyr. Nodwyd bod y system bresennol yn ei gwneud yn bosibl i bartïon ganfod tir cyffredin drwy'r broses apelio. Nododd ymatebwyr y byddai angen gwneud y penderfyniad ynghylch a ddylid apelio yn gynharach fel y gall trafodaethau ddechrau ynghylch y Datganiad o Dir Cyffredin ac, os bydd gofyn cyflwyno Datganiad o Dir Cyffredin yn gynnar, y dylai fod yn bosibl diweddaru'r ddogfen drwy'r broses apelio o hyd. Nododd rhai ymatebwyr y byddai hefyd yn fuddiol pe gallai rhanddeiliaid gymryd rhan yn y broses o gytuno ar y Datganiad o Dir Cyffredin. Nododd ymatebwyr eraill, os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu, y bydd amserlen glir ar gyfer cyflwyno'r datganiadau yn briodol.

5.96 Cyflwynwyd nifer o wrthwynebiadau i'r cynigion. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynigion arwain at oedi cyn cyflwyno apêl am fod Datganiadau o Dir Cyffredin yn ddogfennau sy'n datblygu nad yw rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, yn ymwneud â hwy nac yn neilltuo adnoddau iddynt yn llwyr nes cyrraedd o leiaf y cam yn y broses apelio pan benderfynir ar yr apêl. Roedd rhai hefyd o'r farn na fydd unrhyw fantais sylweddol na baich cynyddol yn deillio o gyflwyno dogfennau yn gynnar. Awgrymodd ymatebwyr fod y dogfennau yn debygol o gael eu disodli gan rai eraill wrth i'r apêl fynd rhagddi ac y byddai eu cyflwyno yn dod yn rhan o ymarfer ticio blychau. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon, pe bai dogfennau yn cael eu disodli wedyn gan rai eraill, y byddai'n cynyddu cost (gan gynnwys ceisiadau posibl am gostau), cymhlethdod a hyd y broses apelio a'i gwneud

yn llai hyblyg. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y ffordd y byddai'r cynigion yn gweithio o ran apeliadau yn erbyn methiant i benderfynu.

**Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno mai'r Arolygiaeth Gynllunio ddylai benderfynu sut i ystyried apêl?**

5.97 Roedd cefnogaeth i'r cynigion hyn. O'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, roedd (72% neu 88 o ymatebwyr) yn cytuno mai'r Arolygiaeth Gynllunio ddylai benderfynu sut i ystyried apêl.

5.98 Roedd y sylwadau hynny a gafwyd o blaid y cynigion o'r farn mai'r Arolygiaeth Gynllunio sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i ystyried apeliadau ac y bydd yn sicrhau tegwch os bydd yn gwneud hynny. Roedd rhai o'r farn y gallai'r cynigion wella effeithlonrwydd a lleihau costau.

5.99 Cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol ar y cynigion, gan gynnwys y dylid cysoni'r broses â system y llysoedd sifil, mai dim ond i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol y dylai'r cynnig fod yn gymwys ac y dylai apeliadau eraill fod yn agored i'r cyhoedd ac y dylai'r cyhoedd allu arsylwi'r achos a chraffu arno. Cafwyd sylwadau penodol ar y mathau gwahanol o weithdrefn apelio, gan gynnwys ar yr angen am ganllawiau / meini prawf clir drwy gydol y broses, o ddewis y dull apelio i wneud penderfyniad.

5.100 Roedd pryderon a fynegwyd ynghylch y cynigion yn ymwneud â'r egwyddor y dylai'r apelydd gael cyfle i gynnig y dull o ystyried yr apêl, am mai'r apelydd sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa mor gymhleth yw'r materion. Roedd rhai o'r farn bod angen ymgynghori ymhellach â phob parti â diddordeb a grŵp technegol ac awgrymwyd hefyd mai panel a ddylai bennu'r dull apelio. Nododd nifer o ymatebwyr fod cyflwyno dull gorfodol o ystyried apeliadau yn Lloegr wedi arwain at rai partïon yn bygwth adolygiad barnwrol, achosion yn cael eu gohirio ac anawsterau cyfreithiol. Nodwyd y gallai partïon gwahanol wneud penderfyniadau gwahanol ynghylch materion allweddol sydd i'w hystyried ac nad fyddai'n briodol caniatáu i Arolygwyr benderfynu pwy all siarad.

5.101 Yn benodol, mynegwyd pryder ynghylch y ffaith bod y costau sy'n gysylltiedig ag achos yn ffactor allweddol wrth ddewis y dull apelio. Ymhlith y sylwadau a wnaed ynghylch y mater hwn mae cyfeiriad at yr angen am dystiolaeth gadarn gan yr Arolygiaeth Gynllunio wrth benderfynu ar y dull apelio ac y dylai fod yn bosibl rheoli'r broses o dalu costau gan gyrff penodol gan ddibynnu ar y dull a ddewisir.

5.102 Roedd rhai o'r farn y byddai'r cynigion yn wrthgynhyrchiol ac yn lleihau cyfranogiad democrataidd yn y system gynllunio, oherwydd byddai materion lleol yn cael eu diystyru ac na fyddai grwpiau penodol yn gallu cyfranogi pe bai'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn cael ei dewis. Cyfeiriwyd at anawsterau gweithdrefnol o ran cyflwyno gwybodaeth ar gyfer yr apêl a rhoi cyngor i gleientiaid ar gostau pe bai'r dull apelio yn anhysbys. Yn olaf, mynegodd rhai bryderon ynghylch rôl yr Arolygiaeth Gynllunio yn y broses archwilio yn gyffredinol ac roeddent o'r farn bod diffyg arbenigedd o fewn yr

Arolygiaeth o ran rhai pynciau ac yn amau ei rôl ddiduedd pan all Gweinidogion Cymru wrthod penderfyniad Arolygydd.

**Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys cais unwaith y bydd apêl wedi'i chyflwyno?**

5.103 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (cyfanswm o 105 neu 68.2% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r dull gweithredu hwn. Gwnaethant nodi y gallai'r cynnig wella effeithlonrwydd, cywirdeb a thryloywder ac y byddai'r dull gweithredu yn decach ac yn rhoi mwy o eglurder a sicrwydd. Nododd ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn atal partïon sy'n gysylltiedig â'r apêl rhag cael eu difreinio. Ar y cyfan, roedd awdurdodau cynllunio lleol o'r farn y byddai'r broses apelio yn gwella'n sylweddol pe bai'r Arolygiaeth Gynllunio yn ystyried yr apêl yn seiliedig ar y cais gwreiddiol. Nododd ymatebwyr y gall gwneud newidiadau i gynnig ar ôl i apêl gael ei chyflwyno arwain at oedi ar gyfer pob parti a chostau ychwanegol i'r awdurdod cynllunio lleol, os bydd yn ymgymryd â rhagor o weithgarwch hysbysebu. Nododd ymatebwyr y dylid cyflwyno cais newydd ar ôl i newidiadau gael eu gwneud ac y dylid anelu at y nod cyffredinol o ymgysylltu'n gynnar er mwyn trafod a datrys problemau, gan ddileu'r angen am apêl.

5.104 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai'r cynnig hefyd gynnwys cyflwyno ymrwymiadau unochrog ac y dylid ystyried cyfryngu cyn i apêl gael ei chyflwyno, gan nodi y dylid caniatáu mwy o amser i gyflwyno apêl os bydd y partïon yn cytuno i gymryd rhan mewn proses gyfryngu.

5.105 Cyfeiriodd ymatebwyr at y posibilrwydd o annog yr ymgeisydd i ymgysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol ac ymateb i bryderon cyn gwneud apêl. Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn, os caniateir apêl, y dylai'r awdurdod cynllunio lleol gynnal ymarfer i nodi'r gwersi a ddysgwyd. At hynny, roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig y dylid galluogi awdurdodau cynllunio lleol i barhau i fod ag awdurdod dros gais pan fydd apêl wedi'i chyflwyno yn erbyn methiant i benderfynu arno am gyfnod penodol ar ôl i apêl gael ei chyflwyno.

5.106 Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan y sector preifat o'r farn ei bod yn briodol atal apeliadau rhag cael eu newid ar ôl iddynt gael eu cyflwyno. Gwnaethant fynegi pryderon nad oedd y dull gweithredu yn cydnabod bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hysbysebu yn yr un ffordd ag y mae'r rhai a gynigir yn ystod y broses gwneud cais yn cael eu hysbysebu gan nodi nad oes, felly, ddiffyg tryloywder na thegwch ac y gallai arwain at apeliadau yn cael eu gwrthod am resymau y gellid fel arall eu goresgyn yn hawdd. Awgrymodd ymatebwyr, ar yr amod nad ystyrir bod y newidiadau yn rhai sylweddol, y dylai fod yn bosibl, o fewn y broses, ganiatáu newidiadau yn ôl disgresiwn yr Arolygydd neu o ganlyniad i drafodaethau a chytundeb rhwng partïon. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr, drwy gyfyngu ar y math o newidiadau y gellir eu gwneud, ei bod yn bosibl y caiff yr ymgeisydd ei orfodi i ailgyflwyno'r cais gan achosi oedi pellach.

5.107 Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch yr amser y mae'n gallu ei gymryd i ystyried apêl a'r effaith y mae hynny yn ei chael ar y dystiolaeth a all golli ei

chyfoesedd. Roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod cyfleoedd i wneud diwygiadau priodol i'r dystiolaeth.

5.108 Nododd rhai ymatebwyr ei bod yn bosibl mai dim ond ar ôl i gais gael ei benderfynu y daw ymgeisydd yn ymwybodol o'r rhesymau dros ei wrthod, sy'n golygu na all yr ymgeisydd drafod â'r awdurdod cynllunio lleol. Gallai'r sefyllfa hon godi lle y bu'n arbennig o anodd i'r ymgeisydd ymgysylltu â rhanddeiliaid.

5.109 Nodwyd bod egwyddor newid cynigion wedi'i sefydlu'n glir yn nyfarniad 'Wheatcroft' ac y byddai atal newidiadau o'r fath yn groes i egwyddorion cynllunio cadarnhaol. Nododd ymatebwyr y gallai caniatáu newidiadau arwain at gynllun sy'n dderbyniol i bawb ac y gallai'r gwaharddiad a gynigir olygu na fyddai'r holl dystiolaeth sydd ei hangen ar gael i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad er mwyn iddo allu gwneud penderfyniad cadarn.

**Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru roi proses dyfarnu costau ar waith?**

5.110 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (73.4% neu 91 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru allu rhoi proses dyfarnu costau ar waith fel rhan o'r broses apeliadau cynllunio. Roedd y sylwadau hynny a gafwyd o blaid y cynigion o'r farn y byddent yn helpu i atal apeliadau gwamal a ffug ac annog partïon i gydymffurfio â gofynion gweithdrefnol. Neu, gallent sicrhau bod swyddogion awdurdodau cynllunio lleol yn canolbwyntio ar osgoi gwrthod rhoi caniatâd yn afresymol a bod ymgeiswyr yn cael rhywfaint o iawndal os byddant yn ennill eu hachos. Hefyd, ystyriwyd bod y cynigion yn rhai cadarnhaol o ran annog awdurdodau cynllunio lleol i wneud ceisiadau am gostau.

5.111 Er bod cryn dipyn o gefnogaeth i'r cynnig, roedd ymatebwyr o'r farn y dylid ystyried nifer o faterion. Roedd y sylwadau hynny yn amrywio o ystyried y dylai'r cynnig sicrhau bod yr apelydd yn gallu gwneud cais o hyd os bydd yn dewis gwneud hynny, gweithdrefnau'r llywodraeth ar gyfer ymdrin â dyfarniad costau fel rhan o'r broses apeliadau a'r angen am ganllawiau a fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch dyfarnu costau. Gofynnwyd cwestiynau am eglurder gweithdrefnol o ran materion megis amserlenni.

5.112 Cyfeiriodd eraill at ragor o newidiadau y gellid eu gwneud neu faterion manwl megis ystyried y dylid cyhoeddi penderfyniad o blaid dyfarnu costau, na ddylai fod yn gymwys i apeliadau yn erbyn methiant i benderfynu nac apeliadau yn dilyn y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig, mai dim ond yr Arolygydd a ddylai allu penderfynu ynghylch dyfarnu costau, mai dim ond i sylwadau ysgrifenedig y dylai fod yn gymwys ac y dylai pob parti allu gwneud cais am gostau, mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid ei ddefnyddio, y dylai partïon allu cyflwyno sylwadau ar benderfyniad i ddyfarnu costau ac y dylai fod yn bosibl dyfarnu costau yn erbyn Gweinidogion Cymru hefyd. Yn olaf, roedd un ymatebydd o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru allu dangos pam y maent wedi mynd i gostau afresymol. Cafwyd sylwadau hefyd ar gynnwys meini prawf ar gyfer dyfarnu costau gan gynnwys eithrio sefydliadau nid er elw ac elusennau rhag gorfod talu costau, gan gynnwys pob parti yn y broses (megis y rhai sy'n rhoi cyngor ar gynnig) a pharodrwydd i gyfryngu fel un o'r meini prawf.

5.113 Roedd yr agweddau ar y cynnig a oedd yn achosi'r pryder mwyaf yn ymwneud ag effeithiau negyddol ar grwpiau penodol yn y broses lle y gallai fod yn ofynnol iddynt dalu costau. Yn y cyd-destun hwn, roedd rhai o'r farn y gellid defnyddio'r cynigion fel modd i atal apeliadau am resymau nad ydynt yn ymwneud â chynllunio, a allai atal buddsoddi a datblygu economaidd yng Nghymru. Cyfeiriodd rhai at faterion ymarferol y cynigion, gan nodi y gallent orgymhlethu'r system bresennol a'r goblygiadau pe bai Gweinidogion Cymru neu'r Arolygiaeth Gynllunio yn dyfarnu costau, a chodwyd pryderon penodol ynghylch gwrthdaro buddiannau pe baent yn dyfarnu costau iddynt eu hunain.

Hefyd, nodwyd bod angen cyflwyno systemau i alluogi'r partïon sy'n gysylltiedig ag apêl i wneud cais am gostau, gan gynnwys yr apelydd. Mae rhai hefyd yn amau digonolrwydd y dystiolaeth sy'n ategu'r cynnig. Mynegwyd pryderon y byddai'r cynigion yn arwain at fwy o gostau yn cael eu dyfarnu yn erbyn yr apelyddion. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai fod yn fwy priodol talu ffi ad-daladwy am apeliadau.

**Cwestiwn 21: A ddylid cyflwyno ffioedd i gwmpasu costau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag apêl?**

5.114 Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn gytbwys. O'r rhai a atebodd y cwestiwn, nid oedd mwyafrif bach (53.9% neu 69 o ymatebwyr) o'r farn y dylid codi ffioedd i dalu costau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag apêl. Ymddengys fod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r cwestiwn hwn gan fod rhai ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau gan dybio ei fod yn gofyn a ddylai ffi fod yn daladwy, tra bod eraill wedi cyflwyno sylwadau gan dybio ei fod yn gofyn a ddylai Gweinidogion Cymru allu adennill eu costau. Mae'r cwestiwn yn ymdrin yn uniongyrchol â ph'un a ddylid talu ffi i gyflwyno apêl.

5.115 O'r rhai nad oeddent o'r farn ei bod yn briodol codi ffi, roedd y prif ddadleuon yn ymwneud â'r gyfundrefn gostau bresennol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y gyfundrefn gostau bresennol yn ddigonol i atal apeliadau ffug neu wamal rhag cael eu cyflwyno ac, wrth ystyried y gyfundrefn hon, y byddai'n amhriodol disgwyl i apelyddion dalu ffi ychwanegol. Ar y llaw arall, roed rhai ymatebwyr o'r farn y dylid gwella'r broses ceisiadau cynllunio bresennol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar apeliadau, yn hytrach na chyflwyno taliadau er mwyn cefnogi'r broses apeliadau. Codwyd dadleuon yn ymwneud â thegwch wrth wrthwynebu'r cynigion. Yn benodol, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai talu ffi yn groes i egwyddorion gwrandawiad teg pan gyflwynir apêl yn erbyn methiant i benderfynu ar gais neu benderfyniad i wrthod rhoi caniatâd cynllunio yn groes i argymhelliad swyddog. At hynny, cyfeiriodd ymatebwyr at egwyddor hawl i apelio a'r ffaith y gallai'r cynigion fod yn annheg gan na fyddai grwpiau penodol yn gallu fforddio talu am apêl. Felly, ystyriwyd y gallai'r cynigion yn y cyd-destun hwn atal apeliadau dilys rhag cael eu cyflwyno. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod apeliadau yn un o ddyletswyddau Gweinidogion Cymru ac, felly, na ddylid codi ffi.

5.116 Codwyd rhai cwestiynau a gwnaed rhai sylwadau ynghylch pwy fydd yn elwa o'r ffi pan fydd sawl parti yn cymryd rhan yn y broses apeliadau. Roeddent o'r farn y dylai'r rhai sy'n mynd i gostau ac yn cymryd rhan yn y broses gael cyfran o'r ffi.

5.117 Roedd dadleuon a gyflwynwyd o blaid talu ffi o'r farn y gallai sicrhau manteision o ran adennill costau'r gwasanaeth apeliadau tra'n helpu i atal apeliadau ffug neu wamal rhag cael eu cyflwyno.

**Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno Gwasanaeth Apeliadau Masnachol?**

5.118 Roedd cryn gefnogaeth i'r cynigion hyn ac roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (cyfanswm o 98 o ymatebwyr neu 86.7%) o blaid cyflwyno Gwasanaeth Apeliadau Masnachol.

5.119 Roedd y rhai a gyflwynodd sylwadau o blaid y cynnig o'r farn y byddai'n estyniad rhesymegol i gynllun peilot y Gwasanaeth Apeliadau gan Ddeiliaid Tai, y cydnabyddir yn gyffredinol ei fod yn gweithio'n dda ac yn cyflymu'r broses apeliadau ar gyfer ceisiadau gan ddeiliaid tai. Nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn arbed cryn dipyn o amser a gwaith ac y byddai'n lleihau'r amser a gymerir i benderfynu ar apeliadau. At hynny, awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylai'r Gwasanaeth Apeliadau Masnachol adlewyrchu'r Gwasanaeth Apeliadau gan Ddeiliaid Tai. Nododd ymatebwyr fod nifer yr apeliadau yn cyfiawnhau creu system ychwanegol.

5.120 Nododd rhai ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig na ddylai fod yn fiwrocrataidd ac y dylai fod yn agored ac yn gynhwysol bob amser. Nododd nifer o ymatebwyr y byddai'r cynnig yn ddefnyddiol i ddatblygiadau masnachol/apeliadau/ceisiadau bach ac awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r cynnig ond ymwneud â datblygiadau ar raddfa fach.

5.121 Cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol. Nododd ymatebwyr y dylai Gwasanaeth Apeliadau Masnachol sicrhau bod safbwyntiau lleol yn cael eu hystyried a bod angen adolygu a lleihau amserlenni presennol.

5.122 Gofynnodd ymatebwyr am eglurhad ynghylch cylch gwaith y Gwasanaeth Apeliadau Masnachol, y ffynhonnell arfaethedig o gyllid ar gyfer y cynllun a sut y ceid cyngor arbenigol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r gwasanaeth gael ei ariannu'n gyhoeddus er mwyn sicrhau didueddrwydd. Awgrymodd ymatebwyr eraill, pe bai atebolrwydd canlyniadol yn cael ei brofi, y dylai unrhyw setliad costau a fyddai'n deillio o hynny gael ei dalu gan Weinidogion Cymru.

5.123 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid gwerthuso a mireinio canlyniadau cynllun peilot y Gwasanaeth Apeliadau gan Ddeiliaid Tai yn llawn cyn ymestyn y gwasanaeth mewn unrhyw ffordd.

5.124 Nododd ymatebwyr y dylid symleiddio'r broses apelio gyfan drwy sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyflymach, rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system a chyflwyno amserlenni byrrach a chyfeiriwyd at y ffaith bod y gwasanaeth a ddarperir gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru eisoes yn rhy araf ac yn anodd iawn ei rhagweld. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod canlyniad teg yn well na phenderfyniad cyflymach.

5.125 Nododd ymatebwyr, pe gellid cyfiawnhau cynllun y Gwasanaeth Apeliadau Masnachol, y gellid cyfiawnhau gwasanaeth apeliadau annibynnol i Gymru hefyd.

## Gwella Cydweithrediad

**Cwestiwn 23: A ydych yn cytuno y dylid uno awdurdodau cynllunio lleol i greu unedau mwy?**

5.126 Dywedodd mwyafrif bach o'r ymatebwyr (cyfanswm o 78 neu 56.9% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cefnogi'r cynnig y dylid creu awdurdodau cynllunio lleol mwy.

5.127 Thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg oedd ei bod yn anodd gwahanu'r cynnig i uno awdurdodau cynllunio lleol oddi wrth yr argymhellion a geir yn adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd ymatebwyr o'r farn bod argymhellion y Comisiwn wedi disodli'r cynnig a nodir yn y ddogfen Cynllunio Cadarnhaol.

5.128 Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno, mewn egwyddor, â chynnig yr ymgynghoriad y dylid uno awdurdodau cynllunio lleol a chreu unedau mwy. Fodd bynnag, yn eu barn hwy, prin yw'r angen neu'r dystiolaeth i uno awdurdodau cynllunio lleol yn ychwanegol at y cynigion a nodwyd gan y Comisiwn. O ganlyniad, nododd nifer o ymatebion na ddylid uno awdurdodau cynllunio lleol cyn cyflawni'r newidiadau ehangach i brosesau darparu gwasanaethau lleol. Pwysleisiwyd na ddylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r broses hon fel rheswm dros ohirio'r gwaith o lunio cynlluniau datblygu.

5.129 Nododd ymatebwyr fod angen i raglenni uno fod wedi'u seilio'n glir ar dystiolaeth ac na ddylid eu cynnal lle mae'r swyddogaethau cynllunio'n gweithredu'n effeithlon ac na ddylai fod polisi cyffredinol o uno awdurdodau cynllunio lleol er mwyn creu unedau mwy o faint. Roedd llawer o ymatebion o'r farn nad oes gan awdurdodau cynllunio lleol presennol ddigon o adnoddau nac arbenigedd i ymdrin â cheisiadau cynllunio cymhleth penodol ac y byddent yn cael eu hasesu'n well gan awdurdodau mwy o faint. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r rhaglenni uno yn gyfle i gyfuno materion gweithredol a chefn swyddfa, rhannu arbenigedd, lleihau costau a gwella effeithlonrwydd.

5.130 Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn nad yw'r system gynllunio yn gweithredu ar wahân i feysydd gwasanaeth eraill awdurdodau lleol, megis priffyrdd a datblygu economaidd ac y gallai dileu cynllunio arwain at system gamweithredol. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai uno awdurdodau cynllunio lleol yn symud gwaith cynllunio ymhellach i ffwrdd o gymunedau lleol ac yn golygu bod y broses gynllunio yn llai hygyrch i'r cyhoedd. Câi gwybodaeth a dealltwriaeth leol o faterion eu colli ynghyd ag arbenigedd lleol.

5.131 Roedd cwestiwn hefyd ynghylch atebolrwydd ac aelodaeth awdurdodau cynllunio lleol wedi'u huno. Yn benodol, roedd ymatebwyr o'r farn y gallai'r byrddau cynllunio newydd eu ffurfio golli atebolrwydd lleol ac na fyddent yn gwneud penderfyniadau democrataidd. Trafodwyd cyfansoddiad y byrddau cynllunio gan ymatebwyr hefyd ac roeddent yn pryderu ynghylch cysylltu aelodaeth â phoblogaeth awdurdod lleol. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylai awdurdodau cynllunio lleol gadw eu swyddogaethau cynllunio ond roeddent yn derbyn bod angen cydweithio'n agosach mewn perthynas â materion gweithredol a chefn swyddfa, rhannu arbenigedd, lleihau costau a gwella effeithlonrwydd. Amlinellodd nifer o ymatebwyr waith sy'n cael ei wneud ar y cyd ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 24: A ydych o'r farn y dylai Awdurdod Parc Cenedlaethol barhau'n gyfrifol am gynllunio yn ei ardal?**

5.132 Roedd amrywiaeth o farn o blaid ac yn erbyn y cynnig. Roedd 100 o ymatebwyr (67.6% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cefnogi'r cynnig y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw'r cyfrifoldeb am y swyddogaeth gynllunio yn eu hardaloedd.

5.133 Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod swyddogaethau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn debyg i swyddogaethau awdurdodau lleol ond roeddent o'r farn bod ganddynt ffocws unigryw a phenodol ar warchod a hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn y Parciau Cenedlaethol. Nododd ymatebwyr fod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi sicrhau manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol i'w cymunedau lleol a Chymru. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol barhau i weithredu fel awdurdodau cynllunio o ran cyflawni swyddogaethau llunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau ac roeddent o'r farn bod cynllunio yn swyddogaeth hanfodol o Awdurdod Parc Cenedlaethol ac y byddai ei cholli yn amharu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau pwysig eraill.

5.134 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at ganfyddiadau adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau gan nodi nad oedd y Comisiwn wedi argymell unrhyw newidiadau i statws na chylch gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol'. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn nad oes digon o dystiolaeth o blaid cymryd swyddogaethau cynllunio oddi ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

5.135 Gan fod rhai Parciau Cenedlaethol yn ymestyn dros fwy nag un ardal awdurdod lleol, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn, pe bai swyddogaethau cynllunio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu cyflawni gan awdurdodau cynllunio lleol unigol, y byddai'n arwain at ardal amhriodol i gynllunio'n effeithiol a fyddai'n golygu bod polisïau a phenderfyniadau yn dameidiog ac yn anghyson.

5.136 Gofynnodd llawer o ymatebion faint o arbenigedd, gwybodaeth leol ac adnoddau a fyddai gan awdurdod lleol i'w neilltuo i Barciau Cenedlaethol o gymharu ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Nododd ymatebwyr, pe bai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn colli eu swyddogaeth gynllunio, y byddai'n gostwng lefel y diogelwch a roddir i Barciau ac yn golygu eu bod yn agored i waith datblygu amhriodol.

5.137 Cydnabu nifer o ymatebwyr fod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cyflawni swyddogaeth arbenigol a phwysig a, phe bai pwerau cynllunio yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol, y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fod yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio.

5.138 Er bod cefnogaeth i'r cynnig y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw eu swyddogaethau cynllunio, nododd ymatebwyr fod angen i'r Awdurdodau

Parciau Cenedlaethol gydweithio'n well ag awdurdodau lleol o ran materion gweithredol a chefn swyddfa, rhannu arbenigedd, lleihau costau a gwella effeithlonrwydd. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y ffaith bod gwaith yn cael ei wneud ar y cyd ar hyn o bryd. Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn bod cyfleoedd i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eu hunain gydweithio gan wella mynediad i arbenigedd ac adnoddau ariannol.

5.139 Cyfeiriodd ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig yn benodol at amcanion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a negeseuon Cynllunio Cadarnhaol, sef bod angen symud tuag at sefydlu prosesau mwy effeithlon a thryloyw o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nododd llawer o ymatebwyr y dylid ymdrin ag awdurdodau lleol yn yr un ffordd yn union ag yr ymdrinnir ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

5.140 Holodd sawl ymatebwyd am yr aelodaeth ac atebolrwydd democrataidd penderfyniadau cynllunio a wneir gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

5.141 Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at fanteision bod yn rhan o awdurdod cynllunio mwy gydag adnoddau gwell, yn amrywio o sail wybodaeth well sy'n arwain at wasanaeth mwy effeithlon a dileu dyblygu a chymhlethdod o fewn y system gynllunio. Fodd bynnag, amododd llawer yr ymateb hwn drwy nodi bod angen i'r polisïau a'r penderfyniadau cynllunio a wneir gan awdurdodau lleol unigol o fewn y Parciau Cenedlaethol fod yn gyson. Nododd rhai ymatebwyr y byddai bod yn rhan o awdurdod lleol yn sicrhau gwell cydbwysedd o ran anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal.

5.142 Nododd rhai ymatebwyr y tebygrwydd rhwng Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gan nodi mai awdurdodau lleol sy'n rheoli'r dynodiadau hyn ar hyn o bryd ac roeddent o'r farn na phrofwyd bod awdurdodau lleol yn rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn wael a'u bod yn perfformio'n dda. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai dynodiad y Parc Cenedlaethol fod yn ddigon ynddo'i hun i ddiogelu cyfanrwydd hanfodol y Parciau a allai gael eu rheoli gan awdurdodau lleol.

**Cwestiwn 25: A ydych yn cytuno mai dim ond mewn rhai ardaloedd penodol y dylid paratoi cynlluniau datblygu strategol?**

5.143 Roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (73.7% neu 98 o ymatebwyr) yn cytuno mai dim ond mewn rhai ardaloedd penodol yng Nghymru y dylid paratoi cynlluniau datblygu strategol.

5.144 Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi'r cynigion yn cytuno mai dim ond mewn ardaloedd lle roedd angen clir amdanynt fel y'i nodwyd yn y ddogfen ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol, y dylid paratoi cynlluniau datblygu strategol, a fyddai'n ategu menter y Dinas-Ranbarthau. Fodd bynnag, roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn ei bod yn bosibl y bydd angen dynodi rhagor o ardaloedd cynlluniau datblygu strategol yn y dyfodol; er enghraifft, yng Nghanolbarth Cymru, Gogledd-orllewin Cymru ac ar gyfer y Parciau Cenedlaethol.

5.145 Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurhad pellach ynghylch ardal cynllun datblygu strategol a rôl cynlluniau o'r fath, gan gynnwys eglurhad ynghylch dylanwad awdurdodau eraill a gweithdrefnau ymgynghori ar gyfer y cam nodi ardaloedd, canllawiau ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu'r ardal a'r gydberthynas rhwng cynlluniau o'r fath ac ardaloedd Dinas-Ranbarthau. Gofynnodd eraill am eglurhad ynghylch effaith y cynlluniau datblygu strategol ar lefelau eraill ar gynlluniau datblygu (e.e. Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) a hefyd ar fathau eraill o Gynlluniau Rheoli (e.e. Adnoddau Morol a Naturiol). Awgrymwyd gan rai ymatebwyr y dylid defnyddio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i ddiffinio ardaloedd Cynlluniau Datblygu Strategol. Cododd nifer o ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch yr angen i sicrhau cyllid i gomisiynu tystiolaeth i lywio'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu strategol.

5.146 Roedd ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu cyflwyno cynlluniau datblygu strategol o'r farn y byddent yn ychwanegu haen o fiwrocratiaeth ac yn arafu'r system, yn hytrach na lleihau cymhlethdod yn y system gynllunio, y dylent fod yn anelu at ei wneud. Dadleuodd eraill, oherwydd graddfa ddaearyddol Cymru, y bydd y cynnig i gyflwyno'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn fwy priodol na chynlluniau datblygu strategol. Galwodd nifer o ymatebwyr ar Lywodraeth Cymru i ailystyried y cynnig yn sgil adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwnaethant ddadlau y gallai Cynlluniau Datblygu Lleol ar draws ardaloedd ehangach fod yn fwy strategol, a allai olygu nad oes angen cynlluniau o'r fath. Codwyd pryderon hefyd y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn dyblygu menter y Dinas-Ranbarthau. Codwyd pryderon eraill ynghylch cyfleoedd i ddinasyddion lleol gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch cynlluniau datblygu, gan awgrymu bod angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr.

5.147 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd unrhyw gyfiawnhad dros y tair ardal a nodwyd ar gyfer cynlluniau datblygu strategol ac y dylai'r meini prawf ar gyfer nodi'r ardaloedd hyn fod ar gael i'r cyhoedd. Cynigiwyd nifer o ardaloedd amgen i fod yn destun cynllun datblygu strategol yn y cyd-destun hwn. Dadleuwyd hefyd y dylid mabwysiadu dull cyson o nodi ardaloedd o'r fath ledled Cymru. Cododd rhai bryderon ynghylch y ffaith y bydd ardaloedd gwledig ymhellach ar ei hôl hi ac, felly, y dylai cynlluniau datblygu strategol gwmpasu Cymru gyfan er mwyn hyrwyddo datblygu economaidd a thwristiaeth.

**Cwestiwn 26: A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu cwmpas Cynlluniau Datblygu Strategol i'r materion allweddol a nodir ym mharagraff 5.29?**

5.148 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (73 o ymatebwyr neu 57.5% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig y dylid cyfyngu materion i roi cyfeiriad strategol a sicrhau na fydd y broses o lunio Cynllun Datblygu Strategol yn rhy feichus.

5.149 Cynigiodd ymatebwyr nifer o bynciau i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Strategol, yn amrywio o ddyraniadau tai a safleoedd sipsiwn a theithwyr i seilwaith (gan gynnwys seilwaith digidol) a chynaliadwyedd gan gynnwys ynni. Gofynnodd rhai ymatebwyr am i'r termau 'dyraniadau strategol' ac 'os yw'n briodol' (ym mharagraff 5.29) gael eu diffinio.

5.150 Roedd anghytuno ynghylch a ddylid cynnwys nifer o bynciau a restrir ym mharagraff 5.29 o'r papur ymgynghori. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r Ardoll Seilwaith Cymunedol aros yn y Cynllun Datblygu Lleol gan mai'r awdurdod cynllunio lleol yw'r awdurdod codi tâl. Nododd ymatebwyr hefyd fod gwerthoedd tir, marchnadoedd tai a hyfywedd tai yn amrywio'n fawr o ranbarth i ranbarth, a fyddai'n ei gwneud hi'n anodd cynnwys yr Ardoll Seilwaith Cymunedol fel rhan o'r Cynllun Datblygu Strategol. Roedd amrywiaeth o farn ynglŷn â ble y dylid nodi safleoedd sipsiwn a theithwyr, yn amrywio o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, Cynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Awgrymodd ymatebwyr ei bod yn fwy priodol ymdrin â darpariaeth gwastraff ar lefel leol am nad yw bob amser yn codi materion sy'n bwysig y tu hwnt i'r ardal leol. Holodd rhai ymatebwyr sut y câi gwastraff a mwynau eu diogelu ar lefel Cynllun Datblygu Strategol. Dadleuodd ymatebwyr fod angen penderfynu ar ddyraniadau tai a dyraniadau tir cyflogaeth yn lleol.

**Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno y dylai partneriaeth rhwng awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol oruchwylio'r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol?**

5.151 Dywedodd y mwyafrif o’r ymatebwyr (110 o ymatebwyr neu 76.4% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol er mwyn i'r cynllun adlewyrchu materion lleol yn llawn ac integreiddio â chynlluniau a strategaethau eraill.

5.152 Cafwyd nifer o ymholiadau ynghylch nodi rhanddeiliaid, gan gynnwys pwy fyddai'n penderfynu pwy yw'r rhanddeiliaid a sut y caent eu dewis; a fyddai'r rhanddeiliaid yn cynnwys cyrff gwirfoddol, y sector preifat, unigolion neu ddim ond cyrff statudol; a sut y gellir sicrhau cynrychiolaeth gyfartal gan randdeiliaid cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Cynigiwyd nifer o randdeiliaid gan ymatebwyr, gan gynnwys Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi a Cyfoeth Naturiol Cymru.

5.153 Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor y dylai fod gan y Paneli Cynllunio Strategol bwerau i wneud penderfyniadau heb orfod cyfeirio'n ôl i'r rhiant awdurdodau cynllunio lleol.

5.154 Nododd ymatebwyr mai'r Panel Cynllunio Strategol a ddylai fod yn gyfrifol am ddewis yr awdurdod arweiniol, nid Llywodraeth Cymru. Codwyd pryderon y byddai'r awdurdod arweiniol yn dylanwadu gormod ar y broses ac y byddai'n rheoli ffin ardal y Cynllun Datblygu Strategol. Nododd rhai ymatebwyr na ddylai'r broses o benderfynu ar nifer yr aelodau fod yn seiliedig ar gyfran o'r boblogaeth. Galwodd ymatebwyr eraill ar Lywodraeth Cymru i chwarae rôl mewn Cynlluniau Datblygu Strategol. Awgrymodd ymatebwyr y dylai Paneli Cynllunio Strategol gael eu cadeirio gan Weinidogion Cymru, Aelod o'r Cynulliad neu un o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, yn lle'r awdurdod arweiniol.

5.155 Cododd awdurdodau cynllunio lleol bryderon ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â llunio dau gynllun datblygu a gofynnwyd am eglurhad pellach ynghylch sut y gellid sicrhau adnoddau staff yn effeithiol. Gofynnodd ymatebwyr am ragor o fanylion am sut y câi'r Cynlluniau Datblygu Strategol eu hasesu gan y broses archwilio annibynnol.

5.156 Cododd yr ymatebwyr hynny a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig bryderon y gallai cynnwys rhanddeiliaid nad ydynt, o bosibl, yn meddu ar y sgiliau, y profiad na'r gallu priodol i gyfrannu'n effeithiol, effeithio ar ddarpariaeth. Roedd ymatebwyr yn ofni y gallai fod yn anodd sicrhau cytundeb barn gan fod gan sefydliadau gwahanol nodau sy'n groes i'w gilydd. Nid oedd nifer fawr o ymatebwyr o blaid rhoi hawliau pleidleisio i randdeiliad.

5.157 Nododd ymatebwyr fod angen i broses y Cynllun Datblygu Strategol fod yn atebol yn ddemocrataidd er mwyn bod yn rhan o'r cynllun datblygu ffurfiol ac roeddent yn pryderu y gallai cyflwyno aelodau anetholedig â phwerau i wneud penderfyniadau osod cynsail beryglus.

**Cwestiwn 28: A ydych yn cytuno y dylid paratoi Cynllun Datblygu Lleol llai manwl sy'n canolbwyntio ar faterion o arwyddocâd lleol mewn ardaloedd lle ceir Cynllun Datblygu Strategol?**

5.158 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (94 o ymatebwyr neu 64.8% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno y gellid paratoi Cynllun Datblygu Lleol llai manwl mewn ardaloedd lle ceir Cynllun Datblygu Strategol er mwyn lleihau dyblygu.

5.159 Nododd ymatebwyr ei bod yn bwysig i Gynlluniau Datblygu Lleol barhau i gynnwys y polisïau sy'n rheoli gwaith datblygu newydd mewn cyd-destun lleol.

5.160 Gofynnodd ymatebwyr am ragor o fanylion am y diffiniad o Gynllun Datblygu Lleol llai manwl yr oedd rhai ymatebwyr o'r farn ei fod yn awgrymu bod penderfyniadau yn ddibwys a bod gan y Cynllun Datblygu Lleol a materion lleol lai o rôl i'w chwarae. Hefyd, gofynnodd ymatebwyr am wybodaeth ychwanegol am amseriadau Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol a'r goblygiadau i Gynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Nododd rhai ymatebwyr y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn union yr un peth ledled Cymru, neu y dylid rhoi enwau gwahanol arnynt. Gofynnodd ymatebwyr am eglurhad ynglŷn â sut y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei archwilio. Galwodd ymatebwyr am ddeddfwriaeth i atal achosion o oedi wrth lunio cynlluniau.

5.161 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen i Gynlluniau Datblygu Lleol fod yn gynhwysfawr ac yn fanwl er mwyn llywio'r broses rheoli datblygu. Nid oedd ymatebwyr eraill yn argyhoeddedig y byddai Cynllun Datblygu Strategol yn gwanhau Cynllun Datblygu Lleol ryw lawer am fod materion lleol sy'n ymwneud â dosbarthiad gofodol a dyraniadau safle yn cael eu trafod yn fanwl yn lleol ac yn ychwanegu'n sylweddol at yr amser a gymerir i lunio Cynlluniau Datblygu Lleol. I'r gwrthwyneb, nodwyd nad oedd angen Cynllun Datblygu Lleol lle roedd Cynllun Datblygu Strategol ar waith. Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch difreinio'r rhai nad ydynt wedi ymgysylltu ar lefel ranbarthol a gwanhau'r broses ddemocrataidd. Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch y cymhlethdod a allai gael ei greu pe na châi Cynlluniau Datblygu Strategol eu paratoi ar gyfer ardal gyfan awdurdod cynllunio lleol am y gallai hyn olygu bod gan awdurdod lleol Gynllun Datblygu Strategol, Cynllun Datblygu Lleol llai manwl a Chynllun Datblygu Lleol llawn. Nododd rhai ymatebwyr y byddai'n well cael ardaloedd awdurdod cynllunio lleol cyfan mewn Cynllun Datblygu Strategol er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb neu gallai'r sefyllfa a ddeilliai o hynny fod yn rhy gymhleth a gallai arwain at ddyblygu ac anghysondeb neu at rai ardaloedd yn cael eu hepgor o Gynlluniau Datblygu Strategol.

## Gwella'r Ddarpariaeth Leol

**Cwestiwn 29: A ydych yn cytuno gyda'r elfennau hanfodol a nodwyd ar gyfer gwasanaeth cynllunio da yn Atodiad A?**

5.162 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (66.2% neu 102 o ymatebwyr) yn cytuno gydag elfennau hanfodol gwasanaeth cynllunio da a nodir yn Atodiad A i'r papur ymgynghori. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol arfaethedig a dangosyddion / mesurau cysylltiedig perfformiad ar gyfer gwasanaeth cynllunio lleol da, yn ddefnyddiol i wella perfformiad.

5.163 Roedd sylwadau a gyflwynwyd ar y dangosyddion arfaethedig yn ymwneud â'r mesurau arfaethedig a graddau'r gwaith adrodd ar berfformiad. Nododd gwahanol ymatebwyr yr hoffent gael cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad pellach a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fireinio'r dangosyddion. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y system monitro a chofnodi perfformiad a ddefnyddir ar hyn o bryd yn yr Alban gan argymell y dylid ystyried y model hwn. Cafwyd sylwadau hefyd ar y dangosyddion ar gyfer penderfynu ar geisiadau sylweddol, gan gynnwys sylwadau ar yr amserlenni, a chynigodd nifer y dylid rhannu ceisiadau diwydiannol a cheisiadau sy'n ymwneud â gwastraff yn gategorïau ar wahân at ddibenion cofnodi perfformiad. Awgrymwyd hefyd y dylai awdurdodau gyflwyno adroddiadau ar benderfyniadau ar geisiadau heb aros i Gytundebau Adran 106 gael eu cwblhau.

5.164 Roedd cryn nifer o ymatebwyr o'r farn y gellid cynnwys rhagor o ddangosyddion perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â pholisi cynllunio, cynlluniau datblygu, ymgysylltu â'r gymuned, dylunio a safon cynlluniau datblygu, penderfyniadau wedi'u dirprwyo, ystyried seilwaith i ategu gwaith datblygu a chael gafael ar gyngor ar faterion treftadaeth neu fioamrywiaeth. Cyflwynodd gwahanol ymatebwyr gynigion unigol ar gyfer rhagor o ddangosyddion, a oedd yn ymwneud yn bennaf â phenderfynu ar geisiadau cynllunio (e.e. nodi nifer y ceisiadau a gymeradwyir yn groes i argymhellion swyddogion a llwyddiant y ceisiadau hynny ar ôl hynny ar y cam apelio), mesur hyder cwsmeriaid yn y system gynllunio ac ystyried materion sy'n ymwneud â sipsiwn a theithwyr yn y broses gynllunio. Roedd eraill o'r farn bod gorgyffwrdd rhwng y dangosyddion arfaethedig a dulliau adrodd eraill, megis Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Felly, dylid diffinio'r cydberthnasau hyn yn gliriach. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylid ymestyn dangosyddion perfformiad i gynnwys rhanddeiliaid allweddol eraill yn y system gynllunio, megis Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymgyngoreion statudol eraill. Fodd bynnag, roedd gan ymgyngoreion statudol amheuon ynglŷn â hyn a gwnaethant fynegi pryderon ynghylch cael eu mesur yn ôl eu gallu i ymateb yn ystyrlon i ymgynghoriadau ynghylch ceisiadau cynllunio o fewn 21 diwrnod.

5.165 Nid oedd cryn nifer o ymatebwyr yn cefnogi nifer o'r dangosyddion. Mynegodd awdurdodau cynllunio lleol bryderon y gallai nifer fach o geisiadau eu gadael yn agored i'r risg o fethu (er enghraifft) pe bai un neu ddwy apêl gynllunio yn cael ei chadarnhau neu eu cadarnhau a'i bod yn afresymol ystyried bod awdurdodau cynllunio lleol yn ‘methu’ drwy beidio â darparu mwy na'r lefel ofynnol statudol o wasanaeth mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol a chyllidebol sylweddol. Yn olaf, beirniadodd rhai ymatebwyr ddangosydd arfaethedig cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai.

**Cwestiwn 30: A ydych yn cytuno y dylai pob awdurdod cynllunio lleol lunio a chyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol yn unol â safonau y cytunwyd arnynt?**

5.166 Roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (94.1% neu 143 o ymatebwyr) yn cytuno y dylai pob awdurdod cynllunio lleol lunio a chyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol i safonau y cytunwyd arnynt.

5.167 Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cytuno y byddai'n sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd ac yn helpu i nodi sut y gellir gwella perfformiad ymhellach.

5.168 Cafwyd nifer sylweddol o sylwadau ar y cynigion. Cafwyd sylwadau ar fformat yr adroddiadau, gan gynnwys y dylid eu cysylltu ag adolygiad blynyddol o'r Cynllun Datblygu Lleol, y dylai'r adroddiadau nodi adrannau cynllunio y mae angen canllawiau a hyfforddiant ychwanegol arnynt yn ogystal â hyrwyddo arfer gorau, y dylai adroddiadau gynnwys elfen i adlewyrchu boddhad ac anfoddhad y cyhoedd ac y dylai'r adroddiadau gynnwys cynigion i ymdrin ag unrhyw ddiffygion ac adolygu camau a gymerwyd i'w datrys mewn adroddiadau blynyddoedd blaenorol. Mynegodd rhai ymatebwyr safbwyntiau gwahanol o ran pa mor aml y dylid llunio adroddiadau. Nododd ymatebwyr eraill na ddylai cyflwyno adroddiadau amharu ar y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol, ar yr amod eu bod yn briodol ac nad oeddent yn rhy fiwrocrataidd. Nodwyd hefyd nad yw achosion o oedi yn gysylltiedig ag awdurdodau cynllunio lleol yn unig ac y dylai Adroddiadau Perfformiad Blynyddol gydnabod hyn. Yn hyn o beth, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai fod yn ofynnol i randdeiliaid eraill yn y system gynllunio lunio adroddiadau perfformiad (megis ymgyngoreion statudol, ymgeiswyr a Llywodraeth Cymru).

5.169 Roedd sylwadau eraill a gafwyd o'r farn y dylid newid neu ddiwygio'r dangosyddion a nodir yn yr adroddiad. Yn hyn o beth, cyflwynodd gwahanol ymatebwyr sylwadau ar amrywiaeth eang o ddangosyddion y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad, gan gynnwys ymgynghoriad cymunedol cyn ymgeisio, apeliadau, gorfodi, cwynion yn erbyn awdurdodau a gyflwynir i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a hefyd y dylai'r dangosyddion gael eu llunio ar ffurf tabl cynghrair. Roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu bod y dangosyddion arfaethedig yn rhai meintiol (perfformiad ystadegol) a'u bod yn mesur cyflymder; roedd gwahanol ymatebwyr o'r farn y dylai'r adroddiadau fesur ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ac ansawdd y broses gwneud penderfyniadau a chyfrif amdanynt. Nodwyd bod angen dangosyddion perfformiad yn seiliedig ar ganlyniadau er mwyn sicrhau na fydd y broses yn troi'n ymarfer ticio blychau. Codwyd pryderon hefyd y gallai'r dangosyddion arwain at adnoddau yn cael eu neilltuo i feysydd penodol, er

anfantais i wasanaethau eraill. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r dangosyddion adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael i awdurdodau.

5.170 Gwnaeth gwahanol ymatebwyr godi cwestiynau neu wneud sylwadau ynghylch defnyddio cymhellion fel rhan o'r broses fonitro ac roeddent o'r farn, heb gymhellion, nad oedd y cynigion yn gytbwys gan yr ymddangosai mai dim ond sancsiynau neu gosbau a oedd yn cael eu cynnig. Yn hyn o beth, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid cysylltu'r defnydd o gymhellion ag ansawdd yn hytrach na dull gweithredu sy'n seiliedig ar dargedau. Hefyd, nodwyd y dylai awdurdodau sy'n ceisio gwella gael eu cefnogi yn hytrach na'u cosbi.

5.171 Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod angen cynnal ymgynghoriad manwl ynghylch adroddiadau perfformiad blynyddol a darparu rhagor o wybodaeth amdanynt. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynghylch ystyr ‘perfformiad gwael parhaus’ a'r gydberthynas rhwng gwybodaeth a gasglwyd eisoes a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

**Cwestiwn 31: A ydych yn cytuno lle yr ystyrir bod awdurdod cynllunio lleol yn perfformio'n wael, y dylai fod opsiwn i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol i Weinidogion Cymru?**

5.172 Roedd mwyafrif bach o ymatebwyr (cyfanswm o 87 neu 59.2% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. Roedd ymatebwyr yn ystyried bod y cynnig yn gam pwysig i gymell awdurdodau cynllunio lleol i wella perfformiad.

5.173 Nododd llawer o ymatebwyr fod angen i'r cynnig gael ei ategu gan gynllun gwella i wella perfformiad yr awdurdod cynllunio lleol. Roedd ymatebwyr o'r farn, heb warant o'r fath, na fyddai unrhyw beth i annog partïon i ddefnyddio'r opsiwn arall, sef cyflwyno cais yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

5.174 Nododd ymatebwyr ei bod yn bwysig i'r broses ystyried y gydberthynas rhwng awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r meini prawf dynodi ystyried cytundebau perfformiad cynllunio ac roeddent yn croesawu'r ffaith bod y cynnig yn 'opsiwn' ac nad oedd yn orfodol a nodwyd y byddai hyn yn galluogi datblygwyr i gytuno ar dargedau perfformiad pwrpasol a chyflwyno ceisiadau i awdurdodau cynllunio lleol lle ceir cydberthynas dda neu hanes o berfformio'n dda.

5.175 Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurhad ynghylch y broses ddynodi. Nododd ymatebwyr na ddylai'r trothwy ar gyfer dynodi gael ei ystyried yn darged gofynnol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ac, ar ôl iddo gael ei ddynodi, y dylai awdurdod cynllunio lleol barhau o dan fesurau arbennig nes i'w berfformiad wella.

5.176 At hynny, mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch yr effaith a gâi'r cynigion ar awdurdodau cynllunio lleol a'r broses gwneud penderfyniadau. Nododd awdurdodau cynllunio lleol y byddai lleihad mewn adnoddau a ddeilliai o ddynodi awdurdod cynllunio lleol yn gwneud fawr ddim i wella perfformiad, yn arbennig lle roedd angen i awdurdod cynllunio lleol negodi cytundebau cyfreithiol cysylltiedig a chyflawni amodau ar ôl i benderfyniad gael ei wneud. Roedd ymatebwyr hefyd yn ystyried bod y cynigion yn canoli prosesau gwneud penderfyniadau ac incwm a geir o ffioedd, gan effeithio ar ddilysrwydd prosesau cynllunio ac atebolrwydd democrataidd lleol a gwleidyddoli penderfyniadau. Nododd ymatebwyr na fyddai gan Lywodraeth Cymru ddigon o wybodaeth ac arbenigedd lleol i benderfynu'n briodol ar gais ac nad oes unrhyw hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

5.177 Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurhad ynghylch y dystiolaeth a ddefnyddir i nodi bod awdurdod cynllunio lleol yn perfformio'n wael. Mynegwyd pryderon bod gormod o ffocws ar gyflymder y broses gwneud penderfyniadau a chanlyniadau sy'n seiliedig ar dargedau nad ydynt, o bosibl, yn cyd-fynd â dymuniadau'r ymgeisydd ac a allai arwain at sefyllfa lle mae'r cynnig yn cynnig llwybr carlam i ddatblygwyr neu at lai o weithgarwch

ymgynghori â'r gymuned. Awgrymodd ymatebwyr, cyn cymryd pwerau cynllunio oddi ar awdurdodau cynllunio lleol, y dylai Llywodraeth Cymru eu helpu yn gyntaf i nodi meysydd diffygiol a gwella perfformiad. Awgrymodd ymatebwyr y dylid gwneud hyn drwy amrywiaeth o fentrau ac y gallai gynnwys Llywodraeth Cymru yn penodi staff i'r awdurdod cynllunio lleol.

5.178 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd y cynigion yn gwneud digon i fynd i'r afael â pherfformiad gwael. Awgrymodd ymatebwyr ymyriadau amgen gan gynnwys cymryd pob swyddogaeth gynllunio oddi ar yr awdurdod cynllunio lleol a'r gallu i gyflwyno unrhyw gais i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt benderfynu arno.

**Cwestiwn 32: A ydych yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd?**

5.179 Roedd cryn gefnogaeth i'r cynigion hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (72.3% neu 102 o ymatebwyr) yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.

5.180 Roedd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion hyn yn ystyried y byddent yn fanteisiol am y byddent yn arwain at rannu arbenigedd (a fyddai'n golygu llai o ddyblygu a bod angen defnyddio llai o adnoddau i lunio cynlluniau), prosesau gwell a chyfredol ar gyfer cyflawni cynlluniau, gwell gwaith cynllunio trawsffiniol a strategol o ran materion megis tai a seilwaith a, lle ceir materion / buddiannau tebyg, bolisïau mwy cydlynol a chyson a llai o faich ar asiantaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gweithgarwch ymgynghori. Nodwyd, heb y pŵer, y gallai gwleidyddiaeth leol rwystro'r gwaith o lunio cynlluniau synhwyrol ar y cyd. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai'r cynigion yn ei gwneud yn bosibl i ystyried cynigion datblygu yn fwy cynaliadwy dros ardaloedd ehangach a'u bod yn un o ganlynebau angenrheidiol y pŵer i greu Byrddau Cynllunio ar y Cyd.

5.181 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion o'r farn, gan y gallai gorfodi awdurdodau cynllunio lleol i gydweithio roi pwysau ar gydberthnasau gwleidyddol lleol a rhwystro gwaith llunio cynlluniau effeithiol, mai dim ond ar ôl rhoi cynnig ar bob dull arall a rhoi digon o gyfle iddynt fabwysiadu dull gweithredu gwirfoddol, y dylid defnyddio Cyfarwyddyd. Dylid defnyddio'r pŵer mewn ffordd gynnil am resymau sy'n ymwneud â chynllunio ac nid rhesymau gwleidyddol ac ni ddylid ei ddefnyddio i danseilio nac osgoi democratiaeth leol.

5.182 Roedd sylwadau cyffredinol ar y cynigion yn cynnwys yr angen i gynnal ymgynghoriad lleol trylwyr â rhanddeiliaid, digonolrwydd y trefniadau ariannu (nodwyd na ddylai'r cynigion fod yn ymarfer lleihau costau ond yn fodd i wella ansawdd cynlluniau), yr angen i ganllawiau a gweithdrefnau ddatrys problemau sy'n ymwneud â llywodraethu, cyflwyno cyfyngiadau clir, canllawiau ar gydweithio a thystiolaeth o'r angen i wneud hynny a manteision cydweithio (pan fwriedir defnyddio'r pŵer), caniatáu i'r cyhoedd graffu ar benderfyniadau ar drefniadau cydweithio a'u herio ac amseriad cyfarwyddyd er mwyn osgoi colli cynlluniau / adnoddau pan fydd y broses o baratoi cynllun eisoes wedi hen gychwyn. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ddylai'r pŵer wneud y broses gwneud cynlluniau yn hirach na'i chymhlethu ac, yn hyn o beth, y byddai angen amserlen lem.

5.183 Nododd nifer o ymatebwyr fod angen ystyried mesurau eraill ar gyfer cydweithio mewn perthynas â'r cynigion hyn; er enghraifft, goblygiadau argymhellion Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, y posibilrwydd o ad-drefnu llywodraeth leol,

cynigion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol ac, i raddau llai, y cynigion ar gyfer Byrddau Cynllunio ar y Cyd.

5.184 Roedd cefnogaeth gref ymhlith y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r pŵer i gyfarwyddo paratoi cynlluniau ar y cyd o blaid cadw disgresiwn lleol o ran gwneud penderfyniad i baratoi cynllun ar y cyd, a hynny mewn trafodaeth â Gweinidogion. Gwnaethant honni, heb ewyllys wleidyddol leol, fod perygl y collir atebolrwydd lleol. Roedd rhai o'r farn bod gorfodi awdurdodau cynllunio lleol i baratoi cynlluniau ar y cyd heb gytundeb yn annhebygol o sicrhau canlyniadau boddhaol ac y gallai ddirywio’n ymgecru gwleidyddol, tanseilio ac osgoi democratiaeth leol, creu prif bartneriaid, rhwystro ac arafu cynnydd, creu cynlluniau â llai o nodweddion lleol a gwanhau polisïau. Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion o'r farn y bydd colli perchenogaeth yn golygu llai o ymrwymiad i weithredu cynlluniau. Roedd rhai o'r farn y byddai trefniadau cydweithio gwell a chanllawiau gwell ar ymdrin â materion trawsffiniol yn ddigonol. Mae tystiolaeth gan un awdurdod sydd â phrofiad o gydweithio ag awdurdodau eraill a gweithio fel awdurdod unigol yn awgrymu nad yw manteision cydweithio yn glir. Yn olaf, nodwyd y byddai'n anodd ceisio uno cynlluniau ac y dylid rhoi'r pwys pennaf ar amgylchiadau arbennig yn achos parciau cenedlaethol mewn ardaloedd sy'n ymestyn dros fwy nag un awdurdod.

**Cwestiwn 33: A ydych yn cytuno y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynllunio ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd ymlaen llaw o leiaf a chynnwys dyddiad dod i ben penodol na fyddant yn gynlluniau datblygu gweithredol ar ôl y dyddiad hwnnw?**

5.185 Roedd y mwyafrif o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (78.3% neu 12 o ymatebwyr) yn cytuno y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynllunio ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd ymlaen llaw o leiaf a chynnwys dyddiad dod i ben penodol na fyddant yn gynlluniau datblygu gweithredol ar ôl y dyddiad hwnnw.

5.186 Roedd sylwadau o blaid y cynigion yn cytuno y byddai'r cynigion yn darparu dull o helpu i sicrhau bod cynlluniau yn gyfredol a pharatoi ac adolygu cynlluniau mewn modd amserol.

5.187 Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch y ffaith y byddai gwacter polisi ar ôl i gynllun datblygu ddod i ben. Roedd rhai o'r farn na fyddai'r gwacter polisi mor bwysig pe bai'r cynnig y dylid llunio set graidd o bolisïau rheoli cynlluniau yn cael ei weithredu cyn i gynlluniau datblygu ddod i ben. Roedd eraill o'r farn y dylid darparu ar gyfer goddefeb arbennig i alluogi Gweinidogion Cymru i gadw polisïau a geir mewn Cynllun Datblygu Lleol.

5.188 Nododd gwahanol ymatebwyr fod angen amrywio'r cynigion, yn arbennig mewn perthynas â hyd Cynlluniau Datblygu Lleol. Er bod llawer o ymatebwyr yn cytuno â'r cyfnod o 15 mlynedd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol, awgrymodd eraill y byddai cyfnod o bump, 10 neu 20 mlynedd yn fwy priodol. Yn hyn o beth, nodwyd hefyd bod prosesau monitro ac adolygu trylwyr a chadarn yn hanfodol i sicrhau bod cynlluniau yn cael eu diweddaru. Roedd rhai o'r farn y dylai sancsiynau fod ar gael er mwyn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn monitro ac yn adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Cafwyd sylwadau pellach ar yr amseriadau rhwng dechrau cynllun newydd a'r dyddiad y daw cynllun sy'n bodoli eisoes i ben. Yn benodol, awgrymwyd y dylid pennu'r dyddiad y'u mabwysiedir neu y'u hadneuir fel y dyddiad dechrau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yn hytrach na'r dyddiad y dechreuir ei baratoi.

5.189 Cyflwynodd ymatebwyr eraill sylwadau ar y cynigion mewn perthynas â'r gwahanol fathau o gynlluniau datblygu a gynigir yng Nghymru, sef Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a hefyd mewn perthynas â Chanllawiau Cynllunio Atodol. Yn hyn o beth, cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at yr angen i fabwysiadu dull gweithredu cyson a’r amserlenni a'r dyddiadau dod i ben rhwng holl haenau cynlluniau ymhellach. Gofynnodd rhai am eglurhad pellach ynghylch y cynigion, gan gyfeirio’n arbennig at yr angen i nodi’r dyddiad dod i ben penodol na fydd cynllun datblygu yn gynllun datblygu gweithredol ar ôl y dyddiad hwnnw ar wyneb y Bil ac o ran sicrhau na fydd oedi cyn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

5.190 Roedd ymatebwyr hefyd yn amau a oedd angen y cynnig am y rhoddir llai o bwys ar gynlluniau datblygu sydd eisoes wedi dod i ben yn y broses gwneud penderfyniadau. Nododd hefyd y gallai fod amgylchiadau nas rhagwelir lle y

gall fod oedi yn y broses sydd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol; er enghraifft, lle mae Adolygiad Barnwrol yn peri oedi i'r broses. O dan y fath amgylchiadau dylai polisïau'r cynllun datblygu barhau i fod yn gymwys.

**Cwestiwn 34: A ydych yn cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda chynghorau tref a chymuned i lunio cynlluniau lleoedd y gellir eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio ategol?**

5.191 Roedd y mwyafrif o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (104 o ymatebwyr neu 77.6%) yn cytuno â'r cynigion ar gyfer paratoi Cynlluniau Lleoedd ac roeddent o'r farn y byddai cynnwys y gymuned yn fwy yn y broses yn arwain at gynlluniau gwell.

5.192 Nododd ymatebwyr mai cynghorau tref a chymuned sydd yn y sefyllfa orau i fod yn rhagweithiol a chael dylanwad cadarnhaol o ran creu cymunedau gwell ac, felly, awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai'n fwy priodol enwi'r cynlluniau yn ‘gynlluniau lleol’ neu'n ‘gynlluniau cymunedol’. Croesawodd ymatebwyr y cynigion i sefydlu nifer fach o brosiectau peilot gan fanteisio ar gymorth technegol Comisiwn Dylunio Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru, gan awgrymu hefyd y gallai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio chwarae rhan yn y gwaith o'u paratoi. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai fod yn ofyniad cyfreithiol i gynllunwyr ystyried lle fel rhan o'r broses gynllunio. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurhad ynghylch diben y Cynllun Lle a'r hyn sy'n gyfystyr â Chynllun Lle.

5.193 Nododd ymatebwyr y dylai fod yn ofyniad cyfreithiol i'r Cynllun Lle gydymffurfio â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Datblygu Lleol. Roed rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Cynlluniau Lleoedd fod yn orfodol a chael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio ac awgrymodd rhai y dylid cynnwys y manylion mewn is-ddeddfwriaeth.

5.194 Cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau ar fodel Lloegr ar gyfer cynlluniau cymdogaeth ac roeddent o'r farn y dylid ystyried y model wrth benderfynu ar y dull gweithredu y dylid ei fabwysiadu yng Nghymru.

5.195 Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch natur gyfyngol y cynnig gan gyfeirio at y ffaith nad oes gan bob cymuned yng Nghymru gyngor tref neu gymuned. Awgrymwyd y dylid cyflwyno proses wedi'i diffinio'n genedlaethol neu brosiectau peilot er mwyn nodi sefydliadau trydydd parti i baratoi Cynlluniau Lleoedd lle na cheir unrhyw gynghorau tref a chymuned.

5.196 Mynegwyd pryderon a gwnaed sylwadau gan nifer o ymatebwyr ynghylch goblygiadau paratoi Cynlluniau Lleoedd o ran sgiliau ac adnoddau i awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau tref a chymuned.

5.197 Cafwyd sylwadau a lleisiwyd pryderon gan rai ymatebwyr mai effaith gronnol y cynigion fyddai cyflwyno pedair haen o gynlluniau mewn rhai ardaloedd. Cyfeiriodd ymatebwyr at rôl Cynlluniau Lleoedd yng ngoleuni'r gallu i ymgysylltu â chymunedau lleol yn y broses cyn ymgeisio a chynghorau tref a chymuned ym mhroses y cynllun datblygu ac roeddent o'r farn y byddai gwell ymgysylltu ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol yn ddigonol.

**Cwestiwn 35: A ydych yn cytuno os yw cynnig datblygu yn cyd-fynd â dyraniad mewn cynllun datblygu a fabwysiadwyd, y dylid cyflwyno proses ceisiadau cynllunio newydd, er mwyn sicrhau mai dim ond manylion megis dyluniad a chynllun a gaiff eu hystyried?**

5.198 Roedd mwyafrif bach o ymatebwyr (cyfanswm o 78 neu 55.3% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. Croesawodd ymatebwyr y dull gweithredu am ei fod yn rhoi sicrwydd, eglurder a chanllawiau, yn arbennig ar gam y Cynllun Datblygu Lleol o'r broses gynllunio. Nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn annog rhanddeiliaid i gymryd rhan ym mhroses y cynllun datblygu, gan gynyddu hyder yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y gallai hyn feithrin hyder a rhoi sicrwydd o ran cyflawni gwaith datblygu priodol mewn modd amserol. Roedd ymatebwyr yn ystyried bod y cynnig yn un synhwyrol gan fod y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi dyraniad safle o fewn y Cynllun Datblygu Lleol yn aml yn debyg i'r wybodaeth sydd ei hangen mewn cais amlinellol.

5.199 Gofynnodd llawer o ymatebwyr am fwy o fanylion am sut y byddai'r cynnig yn gweithredu yn ymarferol. Gofynnwyd cwestiynau penodol megis a fyddai'r cynnig yn gymwys hefyd i ddyraniadau strategol a nodir yn y Cynllun Datblygu Strategol, sut yr ymdrinnid â dyraniadau a gyflwynir fesul cam ac a ddylai'r cynnig hefyd fod yn gymwys i bolisïau sy'n seiliedig ar feini prawf.

5.200 Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder y byddai'r cynnig yn tanseilio gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a hyder yn y system gynllunio ac y câi effaith negyddol ar rôl aelodau pwyllgorau cynllunio lleol. Roedd nifer o ymatebwyr yn amau a oedd angen proses newydd am eu bod o'r farn y byddai'n ychwanegu cymhlethdod diangen, yn arbennig gan fod awdurdodau cynllunio lleol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn derbyn egwyddor datblygu fel y'i nodir yn y cynllun datblygu. Gofynnodd nifer fach o ymatebwyr a ellid diwygio deddfwriaeth er mwyn sicrhau na ellir ailystyried derbynioldeb gwaith datblygu sy'n cydymffurfio â dyraniad.

5.201 Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu nad yw dyraniadau Cynlluniau Datblygu Lleol yn cynnwys digon o wybodaeth i'w gwneud yn bosibl i benderfynu ar geisiadau cynllunio a gwnaethant holi sut y byddai'r broses gwneud cais arfaethedig yn ymdrin ag ystyriaethau manwl megis dylunio, archaeoleg a mynediad cynhwysol. Mynegwyd pryderon hefyd gan gryn nifer o ymatebwyr ei bod yn bosibl bod dyraniadau Cynlluniau Datblygu Lleol yn seiliedig ar wybodaeth sydd wedi dyddio.

5.202 Nododd ymatebwyr eraill na ellid ymdrin â gofynion sy'n ymwneud ag Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol. Yn yr un modd, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn mai dim ond drwy gais amlinellol neu gais llawn y gellid ymdrin â materion sy'n ymwneud ag Adran 106 a hyfywedd.

5.203 Nododd nifer o ymatebwyr y bydd ymgeiswyr am gadw'r hawl i gyflwyno cais amlinellol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol, tra mynegodd eraill bryder y byddai proses y Cynllun Datblygu Lleol yn arafach am y byddai angen iddo ymdrin â mwy o fanylion.

**Cwestiwn 36: A ydych yn cefnogi'r cynnig i ganiatáu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio lleol i beidio â chofrestru cais cynllunio?**

5.204 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (cyfanswm o 112 neu 76.7% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r cynnig. Croesawodd cyfran fawr o'r ymatebwyr y cynnig gan nodi y byddai'n helpu i leihau oedi yn y system gynllunio. Nododd sawl busnes ac ymgynghorydd eu bod wedi wynebu oedi ar y cam cofrestru ceisiadau cynllunio ac y byddai'r cynnig yn helpu i ddatrys y broblem hon. Croesawodd awdurdod cynllunio lleol y sicrwydd y byddai'r cynnig yn ei roi mewn achosion lle na ellid sicrhau cytundeb rhwng yr ymgeisydd a'r datblygwr.

5.205 Nododd sawl ymatebydd y byddai'r cynnig yn helpu i gyflawni'r newid mewn diwylliant sydd ei angen i sicrhau system gynllunio gadarnhaol. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylid defnyddio'r apêl arfaethedig pan fetho popeth arall gan nodi bod cael canllawiau dilysu clir o'r cychwyn cyntaf yn allweddol i osgoi oedi ar y cam cofrestru.

5.206 Nododd nifer o ymatebwyr a groesawodd y cynnig fod yn rhaid i'r broses apelio fod yn gyflym er mwyn cyflawni’r nod o gyflymu'r broses ddatblygu yn gyffredinol neu y gallai arwain at oedi pellach. Awgrymodd ymatebwyr fod angen rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau bod yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r ymgeisydd bod y cais yn annilys mewn modd amserol, er mwyn atal yr awdurdod cynllunio lleol rhag peri oedi i'r apêl.

5.207 Awgrymodd sawl ymatebydd, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ar draws awdurdodau cynllunio lleol, y gallai fod yn fwy priodol rhoi canllawiau gwell i awdurdodau cynllunio lleol, gan nodi y dylai'r canllawiau nodi'n glir bod angen i wybodaeth y gofynnir amdani fod yn gymesur ac y dylai roi enghreifftiau o safon y wybodaeth a ddisgwylir. Awgrymodd ymatebwyr eraill y gellid defnyddio cyngor cyn ymgeisio a'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio i osgoi anghydfodau ynghylch dilysu ceisiadau.

5.208 Nododd rhai ymatebwyr nad yw anghydfodau ynghylch dilysu ceisiadau yn broblem fawr yn y system bresennol a bod y cynnig, felly, yn ymateb anghymesur ac nad yw'n cefnogi'r dull "partneriaeth" o weithio rhwng datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol.

5.209 Nododd sawl ymatebydd fod y cynnig yn mynd yn groes i nod ehangach y Bil Cynllunio o roi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system am ei fod yn cyfyngu neu'n cwtogi ar allu'r awdurdod cynllunio lleol i ofyn am yr holl wybodaeth ymlaen llaw. Nododd ymatebwyr hefyd y byddai'r broses gyffredinol yn arafach pe bai'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol ofyn am wybodaeth ar gam diweddarach, ar ôl i gais gael ei ddilysu.

**Cwestiwn 37: A ddylid dileu'r gofyniad gorfodol am ddatganiadau dylunio a mynediad gorfodol?**

5.210 Roedd mwyafrif bach o ymatebwyr (cyfanswm o 95 neu 57.6% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod datganiadau dylunio a mynediad, mewn egwyddor, yn adnodd da a all fod yn werthfawr os cânt eu llunio'n dda. Fodd bynnag, roedd consensws cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr nad ydynt yn ddefnyddiol fel arfer yn ymarferol. Cyfeiriodd ymatebwyr at nifer o broblemau gyda'r gofyniad gorfodol i gyflwyno datganiadau dylunio a mynediad, gan nodi eu bod yn llafurus, yn ddrud ac yn lletchwith i'w paratoi ac nad oes eu hangen ar gyfer llawer o geisiadau (er enghraifft, cynigon bach neu gynigion mwy arbenigol).

5.211 Nododd ymatebwyr hefyd nad oedd dull gweithredu awdurdodau lleol yn gymesur nac yn anhyblyg a oedd yn golygu nad oedd ceisiadau yn cael eu dilysu a oedd yn peri oedi i'r broses gynllunio. Nododd rhai ymatebwyr fod y gofyniad yn cael ei ystyried yn ymarfer ticio blychau gan awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr a bod y cynnwys yn aml yn rhy gymhleth, ailadroddus ac amherthnasol. Nododd ymatebwyr nad oeddent bob amser yn cael eu defnyddio gan swyddogion cynllunio awdurdodau lleol ac nac oeddent yn ychwanegu fawr ddim at y broses benderfynu. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oes gan swyddogion cynllunio awdurdod lleol ddigon o arbenigedd i ddefnyddio datganiadau dylunio a mynediad yn effeithiol.

5.212 Nododd nifer o ymatebwyr fod datganiadau dylunio a mynediad yn fuddiol ac y dylid eu cadw ar gyfer ceisiadau cynllunio mwy sylweddol neu fwy cymhleth. Yn benodol, awgrymodd ymatebwyr y dylid eu cadw ar gyfer ceisiadau sylweddol, cynlluniau tai a chynigion mewn lleoliadau sensitif (megis ardaloedd cadwraeth neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol).

5.213 Nododd yr ymatebion mai un o fanteision allweddol datganiadau dylunio a mynediad yw y gellir eu defnyddio fel dull cyfathrebu. Nododd ymatebion eraill fod datganiadau dylunio a mynediad yn bwysig am eu bod yn fodd i grwpiau mynediad lleol gymryd rhan yn y broses gynllunio. Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon y byddai dileu'r gofyniad i gyflwyno datganiadau dylunio a mynediad gorfodol yn arwain at golli adnodd pwysig ar gyfer esbonio materion dylunio, tynnu sylw at ystyriaethau mynediad cynhwysol a deall sut y mae datblygwr yn bwriadu ymdrin â goblygiadau o ran diogelwch cymunedol.

5.214 Awgrymodd ymatebwyr y gellid gwella'r defnydd a wneir o ddatganiadau dylunio a mynediad drwy fabwysiadu dull symlach, mwy hyblyg a mwy cymesur o ymdrin â chynnwys datganiadau dylunio a mynediad; drwy wella ansawdd datganiadau dylunio a mynediad drwy ledaenu arfer da, canllawiau a hyfforddiant; drwy sicrhau bod datganiadau dylunio a mynediad yn sail i ymgynghoriadau cyn ymgeisio ac ymgynghoriadau cyhoeddus; drwy ddileu'r elfen mynediad.

5.215 Awgrymwyd mesurau amgen i hyrwyddo gwaith dylunio a mynediad, gan gynnwys defnyddio trafodaethau cyn ymgeisio a briffiau dylunio ar gyfer datblygiadau sylweddol; datblygu polisi dylunio mwy cadarn a gwella arbenigedd awdurdodau cynllunio lleol ym maes dylunio drwy hyfforddiant ac addysg ddylunio well. Nododd ymatebwyr hefyd yr argymhellion a geir yn yr adroddiad ymchwil ‘Adolygiad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru’ gan awgrymu y dylid diwygio Rheoliadau Adeiladu sy'n ymwneud â mynediad.

**Cwestiwn 38: A ddylid dileu'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol mewn papur newydd lleol?**

5.216 Roedd gwahaniaeth barn sylweddol ar y cynnig hwn. Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (78 o ymatebwyr neu 53.1%) yn cefnogi'r cynnig y dylid dileu'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol mewn papur newydd lleol.

5.217 Roedd cryn nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai dileu hysbysebion mewn papurau newydd yn creu anghydraddoldeb ar gyfer grwpiau megis yr henoed, pobl ddi-waith a thrigolion tlotach; grwpiau sy'n llai tebygol o elwa o fynediad at ddulliau hysbysebu eraill na bod yn ymwybodol ohonynt, megis y rhyngrwyd. Nododd nifer fach o gwmnïau preifat eu bod am gadw hysbysebion mewn papurau newydd er mwyn cyfyngu ar y potensial ar gyfer heriau cyfreithiol yn seiliedig ar gyhoeddusrwydd annigonol. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cadw hysbysebion mewn papurau newydd ond dim ond ar gyfer mân geisiadau. Awgrymodd ymatebydd arall y gellid caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu a oedd angen hysbysiad papur newydd, yn ôl eu disgresiwn.

5.218 Awgrymodd ymatebwyr amrywiaeth o ddulliau amgen o hysbysebu ceisiadau cynllunio, gan gynnwys gwneud gwell defnydd o dechnoleg sy'n bodoli eisoes megis cyfryngau cymdeithasol, e-bost, anfon rhybuddion drwy negeseuon testun a gwella cynnwys a hygyrchedd gwefannau presennol awdurdodau cynllunio lleol. Nododd nifer o ymatebwyr y dylai fod gan ymgeiswyr cynllunio fwy o gyfrifoldeb am gyhoeddusrwydd, gan gynnwys talu am hysbysebion yn y wasg neu hysbysu am geisiadau. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellir lleihau maint hysbysiadau mewn papurau newydd (ac felly eu cost) drwy gyfeirio'r darllenwr at wefan yr awdurdod cynllunio lleol neu swyddfeydd y cyngor i gael rhagor o fanylion. Awgrymodd ymatebwyr y dylid adolygu gofynion cyhoeddusrwydd, gyda chymorth ar gyfer y gwaith hwn yn cael ei gynnig gan elusen gynllunio. Nododd rhai ymatebwyr y dylid darparu dewisiadau amgen nad ydynt yn dibynnu ar systemau cyfathrebu electronig, ochr yn ochr â hysbysiadau mewn fformatau hygyrch, megis Easy Read, ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.

5.219 Roedd cryn dipyn o ymatebwyr, yn arbennig awdurdodau cynllunio lleol, o'r farn nad yw hysbysebion mewn papurau newydd yn arbennig o effeithiol a'u bod yn gosod baich ariannol arnynt. Roedd rhai awdurdodau cynllunio lleol o'r farn nad oedd angen yr hysbysebion mewn papurau newydd gan fod gofynion cyhoeddusrwydd statudol eraill megis hysbysiadau safle a'r gofyniad i hysbysu cymdogion. Roedd llawer o ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor y dylid dileu'r angen i roi hysbysebion mewn papurau newydd ar yr amod bod dull hysbysebu amgen cadarn a hygyrch ar gael ac yr ymdrinnir â materion megis cyflwyno band eang i bob rhan o Gymru ac ansawdd gwefannau awdurdodau cynllunio lleol. Tan hynny, roedd yr ymatebwyr hynny o'r farn bod y cynnig yn gynamserol.

**Cwestiwn 39: A ddylai fod unrhyw amrywiad lleol o fewn cynllun dirprwyo cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau?**

5.220 Roedd gwahaniaeth barn sylweddol ar y cynigion hyn. O'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, roedd mwyafrif bach (53.5% neu 69 o ymatebwyr) yn cytuno y dylai fod amrywiadau lleol o fewn cynllun dirprwyo cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau.

5.221 Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y dylai fod amrywiadau lleol o fewn y cynllun dirprwyo cenedlaethol oherwydd effeithiau gwahanol datblygiadau gan ddibynnu ar y lleoliad. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd mae Parciau Cenedlaethol a'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y dylid caniatáu i gymunedau lleol neu awdurdodau cynllunio lleol benderfynu pa ddatblygiadau sy'n bwysig yn lleol ac a ddylai gael eu penderfynu gan bwyllgor cynllunio. Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod y cynnig i gyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol yn mynd yn groes i ddyheadau eraill yn y Bil sy'n hyrwyddo lefel uwch o gyfranogiad gan y gymuned. Nododd nifer o ymatebwyr mai awdurdodau cynllunio lleol a ddylai fod yn gyfrifol am wneud trefniadau dirprwyo ac na ddylai Llywodraeth Cymru ymyrryd. Nododd sawl ymatebydd y gallent weld manteision cynllun cenedlaethol ond eu bod yn rhagweld y byddai'n anodd dileu amrywiadau lleol am resymau gwleidyddol.

5.222 Cafwyd nifer fawr o sylwadau ar y cynigion, gan gynnwys rhai a oedd yn awgrymu y gallai cynllun dirprwyo cenedlaethol ddarparu ar gyfer amrywiadau lleol yn ddarostyngedig i amodau neu baramedrau wedi'u diffinio'n ofalus. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r cynllun cenedlaethol ddarparu safonau gofynnol ac y gallai unrhyw amrywiadau lleol ychwanegol fod yn amodol ar gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ymlaen llaw; awgrymodd eraill y dylai'r cynllun cyfan gael ei lunio gan awdurdodau cynllunio lleol ond y dylai fod angen iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Ymhlith sylwadau nodedig eraill a gafwyd roedd rhai a awgrymodd na ddylai unrhyw gynllun leihau nifer y ceisiadau a ddirprwyir gan awdurdodau cynllunio lleol ar hyn o bryd, nac atal awdurdodau cynllunio lleol rhag gwella trefniadau dirprwyo presennol. Hefyd, y byddai angen i'r cynllun cenedlaethol fod yn glir iawn ac yn ddiamwys er mwyn atal gwrthdaro rhwng aelodau a swyddogion ac nad yw cynllun cenedlaethol yn gydnaws â democratiaeth leol gan fod cyfleoedd eraill i gymunedau lleol gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau heblaw drwy bwyllgor. Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i gyflwyno sylwadau ar y cynigion ar gyfer pwyllgorau, gan gefnogi'r cynigion ar gyfer pwyllgorau llai o faint, mwy penodol a hyfforddi aelodau pwyllgorau.

5.223 O'r ymatebwyr hynny a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion, roedd cryn nifer ohonynt yn credu y byddai caniatáu amrywiadau lleol yn tanseilio nod allweddol y cynllun cenedlaethol, sef sicrhau cysondeb. Roedd ymatebwyr yn credu y byddai darparu ar gyfer amrywiadau lleol yn creu dryswch ac yn arwain at anghysondeb, oedi a dehongliadau gwahanol o drefniadau dirprwyo. Nododd sawl ymatebydd fod dull cyson o ddirprwyo yn bwysig i roi sicrwydd a

thryloywder a sicrhau y caiff y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses gwneud cais eu trin yn yr un ffordd. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn, er bod amrywiadau rhwng awdurdodau cynllunio lleol o ran demograffeg a daearyddiaeth, nad yw hyn yn golygu bod angen i'r broses gwneud penderfyniadau ei hun fod yn wahanol rhwng awdurdodau cynllunio lleol. Nododd rhai y byddai dileu amrywiadau yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i feincnodi yn erbyn ei gilydd a helpu i fesur perfformiad yn fanwl gywir.

**Cwestiwn 40: A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu mân newid perthnasol i "newid y mae ei faint a'i natur yn arwain at ddatblygiad nad yw'n sylweddol wahanol i'r datblygiad a gymeradwywyd"?**

5.224 Cytunwyd â'r cynigion y dylid cyfyngu mân newid perthnasol i'r diffiniad fel y'i disgrifir. Roedd y mwyafrif o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (85.4% neu 117 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynigion.

5.225 Roedd y rhai a oedd o blaid y diffiniad o'r farn ei fod yn synhwyrol, yn rhesymol ac yn ymarferol. Nododd ymatebwyr fod y diffiniad yn crynhoi'n effeithiol yr hyn y gellir ei wneud eisoes drwy Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac sydd eisoes wedi'i fabwysiadu gan rai awdurdodau cynllunio lleol.

5.226 Roedd cefnogaeth i'r weithdrefn ar gyfer mân newidiadau perthnasol am ei bod yn osgoi'r angen i gyflwyno cais cynllunio newydd, sy'n golygu y gall y system gynllunio ymateb i newidiadau yn gyflym ac mewn modd hyblyg. Er mwyn hwyluso hyn, roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r broses gwneud cais hefyd fod yn gymesur â'r newid a ganiateir. Hefyd, ystyriwyd bod proses ffurfiol yn ffordd o leihau nifer y cwynion a gyflwynir pan geisir newid caniatâd cynllunio.

5.227 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai rhagor o ganllawiau ar y diffiniad o fân newid perthnasol yn helpu i sicrhau cysondeb. Nododd eraill fod darpariaeth debyg eisoes i'w chael yn Lloegr ac y gallai'r cynnig fod yn welliant cyflym a sicrheir gan y Bil.

5.228 Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion o'r farn y gall y diffiniad fod yn rhy eang am ei bod yn bosibl nad yw dehongliad datblygwyr yn cyd-fynd â dehongliad awdurdodau cynllunio lleol na chymunedau lleol, a allai arwain at anghysondeb, dryswch neu drafodaeth. Er mwyn goresgyn hyn roedd pobl yn ystyried bod angen enghreifftiau manwl o'r hyn y gellir ei gyflawni a'r hyn na ellir ei gyflawni drwy'r broses. Holodd nifer o ymatebwyr sut mae'r cynnig yn cyd-fynd ag ymgynghoriadau blaenorol ynghylch diwygiadau ansylweddol. Roedd rhai o'r farn y dylid cyfyngu'r newidiadau i'r rhai sy'n ansylweddol. I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y diffiniad yn rhy gyfyngol neu wedi'i eirio'n wael. Nododd sawl ymatebydd nad yw'r gair 'perthnasol' yn ychwanegu dim at y diffiniad.

5.229 Nododd eraill nad graddfa na natur newid sy'n bwysig, o reidrwydd, ond effaith y newid hwn. Cyfeiriwyd at hyn yn gyffredinol ac yn benodol mewn perthynas ag anabledd. Nodwyd bod y gallu i wneud newidiadau yn cynnig cyfle i ddatblygiad newid o'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol gan gael mwy o effaith ar yr ardal, o bosibl.

**Cwestiwn 41: A ydych yn cytuno bod y cynigion yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i warchod tir a ddefnyddir fel meysydd tref a phentref a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr?**

5.230 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y cynigion yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yr angen i warchod Meysydd Tref a Phentref a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr. Roedd y mwyafrif o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol (72.3% neu 94 o ymatebwyr) yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

5.231 Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion o'r farn y gall y system bresennol ar gyfer cofrestru meysydd tref a phentref rhwystro'r broses ddatblygu. Roedd nifer o ymatebwyr o blaid y cynigion ar yr amod bod aelodau o'r cyhoedd a chynghorau cymuned yn chwarae mwy o ran ym mhrosesau dynodi meysydd tref a phentref. Nododd eraill a oedd yn eu cefnogi fod angen rhagor o fanylion arnynt am y cynigion cyn iddynt lunio barn arnynt. Nododd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion y dylid cyfleu a hysbysebu unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system gofrestru yn glir ac y dylent fod wedi'i hategu gan ganllawiau clir. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn nad yw'r system bresennol yn cynnwys sancsiynau yn erbyn ceisiadau afresymol ar gyfer meysydd tref a phentref ac roeddent yn pryderu ynghylch apeliadau gan drydydd partïon. Mewn cymhariaeth, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod angen rhoi system ar waith er mwyn sicrhau bod cymunedau a datblygwyr yn cael eu trin yn gyfartal.

5.232 Roedd yn amlwg bod ymatebwyr eraill a gyflwynodd sylwadau wedi camddeall y cynigion, gan nodi bod y cynigion yn groes i gynigion diweddar gan Lywodraeth y DU ac y byddent yn dod i rym pan gyhoeddir darpar safleoedd Cynlluniau Datblygu Lleol.

5.233 Hefyd, cafwyd awgrymiadau gan ymatebwyr i amrywio'r cynigion. Roedd y rhain yn cynnwys atal ceisiadau ar gyfer meysydd tref a phentref lle ceir ceisiadau ar gyfer Gorchmynion Caniatâd Datblygu, yn ogystal ag ystyried eu dynodiadau fel rhan o gynigion cyn ymgeisio a phroses y cynlluniau datblygu. Cynigiwyd newidiadau deddfwriaethol hefyd, gan gynnwys mabwysiadu prawf nodweddion i ddiffinio tir fel maes tref neu bentref. Roedd amrywiadau eraill yn cynnwys caniatáu gwaith craffu cyhoeddus ac ymestyn y cyfnod o amser i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ar ddatganiadau gan dirfeddianwyr a'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fonitro meysydd tref a phentref.

5.234 Cafwyd nifer o ymatebion a oedd yn anghytuno â'r cynigion. Nododd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion ar gyfer cofrestru meysydd tref a phentref eu bod yn ffafrio'r diwydiant datblygu dros bobl leol ac y gallent achosi problemau a chyfeiriodd rhai ymatebwyr at enghreifftiau o hyn. Nododd rhai ymatebwyr eu bod o'r farn y byddai hyn yn arwain at golli tir ar gyfer pobl leol a fyddai'n amharu ar yr amgylchedd a meysydd eraill, gan gynnwys iechyd pobl Cymru. Roedd eraill yn anghytuno â'r cynigion am wahanol resymau gan gynnwys eu bod o'r farn bod y cynigion yn annheg ac nad

oeddent yn seiliedig ar dystiolaeth. At hynny, nododd rhai ymatebwyr nad yw'r rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd yn ymgysylltu ddigon â'r broses gynllunio er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o gynigion datblygu a'u canlyniadau a bod addasiadau rhesymol i'r broses yn cael eu gwneud ar gyfer y rhai ag anableddau.

**Cwestiwn 42: A ydych yn cytuno y bydd y cynigion yn lleihau oedi yn y system gorfodi cynllunio?**

5.235 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y gyfres arfaethedig o newidiadau i wella'r broses orfodi ac roedd 105 o ymatebwyr (86.8% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol) yn cytuno y bydd y cynigion yn lleihau oedi. Awgrymodd sylwadau o blaid y cynigion nad yw'r system orfodi bresennol yn addas at y diben. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion y byddai'r newidiadau yn lleihau oedi yn y system gorfodi cynllunio (gan gyfyngu ar nifer y ffyrdd o apelio y gallai apelyddion eu defnyddio i geisio 'arafu'r' broses a dileu elfennau amwys yn y system) yn ogystal â gwella'r system er mwyn sicrhau ei bod yn llai dryslyd ac yn haws i'w deall. Roedd cefnogaeth gref i roi'r pŵer i awdurdodau cynllunio lleol ei gwneud yn ofynnol i geisiadau cynllunio ôl-weithredol gael eu cyflwyno neu eu galluogi i wrthod ceisiadau cynllunio ôl-weithredol.

5.236 Roedd gan ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau cadarnhaol ar y newidiadau arfaethedig rai mân amheuon a oedd yn adlewyrchu sut y byddai'r newidiadau hyn yn gweithredu'n ymarferol. Holwyd am y goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau cynllunio lleol, y weithdrefn ar gyfer ceisiadau ôl-weithredol a'r ystyriaeth a roddwyd i gosbau ar gyfer troseddwyr mynych. Awgrymwyd bod angen darparu ar gyfer y rhai sy'n wirioneddol anymwybodol o'r ffaith eu bod wedi torri rheolaethau cynllunio.

5.237 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r system weithredu'n wahanol ar gyfer rhanddeiliaid gwahanol (er enghraifft, er mwyn sicrhau nad yw'n cael effaith andwyol ar wahanol grwpiau cymunedol ac yn eu rhoi o dan anfantais). Nodwyd bod angen diweddaru Nodyn Cyngor Technegol 9 "Gorfodi Rheolaeth Gynllunio" yn sgil y newidiadau arfaethedig a bod angen i'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio hyrwyddo arfer gorau.

5.238 Cododd nifer o ymatebwyr bryderon y gallai rhoi'r pŵer i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar geisiadau ôl-weithredol gael canlyniadau anfwriadol gan arwain at gostau ychwanegol ac anghydfodau cyfreithiol. Awgrymodd eraill mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio ceisiadau ôl-weithredol. Nododd yr ymatebion hefyd na fyddai newid enw Adran 94 (Hysbysiadau Cwblhau) yn hyrwyddo defnydd gwell o'r adnodd gorfodi hwn. At hynny, roedd rhai ymatebwyr o'r farn na chafodd y cynnig y dylid dileu hawliau a dulliau apelio ei egluro'n glir a byddai angen cynnal ymgynghoriad pellach er mwyn rhoi mwy o fanylion am y cynnig.

**Cwestiwn 43: A ydych yn cytuno â chyflwyno hysbysiadau atal dros dro fel rhan o'r system gorfodi cynllunio yng Nghymru?**

5.239 Roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig y dylid cyflwyno hysbysiadau atal dros dro ac roedd 121 o ymatebwyr (89.6% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol) yn cefnogi'r cynigion. Cytunwyd y byddent yn ddull mwy effeithiol o atal datblygiadau heb eu hawdurdodi na'r adnoddau gorfodi presennol ac y byddent hefyd yn llai amwys ac yn rhoi mwy o sicrwydd i awdurdodau cynllunio lleol pan fyddant yn ystyried camau gorfodi. Nododd ymatebwyr hefyd bod y broses o'u cyflwyno yn Lloegr a'r Alban wedi bod yn effeithiol.

5.240 Er bod y sylwadau a gafwyd yn rhai cadarnhaol ar y cyfan, nodwyd nifer o faterion yr oedd angen eu hegluro, pe bai hysbysiadau atal dros dro yn cael eu cyflwyno. Nododd ymatebwyr mai dim ond os oedd yn gwbl angenrheidiol y dylai awdurdodau cynllunio lleol eu defnyddio ac y dylid llunio canllawiau ar sut i ddefnyddio hysbysiadau atal dros dro fel adnodd gorfodi effeithiol. Ystyriwyd y byddai angen i awdurdodau cynllunio lleol fod yn dryloyw wrth gyfiawnhau pam mae hysbysiad atal dros dro wedi'i gyflwyno a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd. Cyflwynwyd sylwadau hefyd ar drefniadau ar gyfer talu iawndal a allai ddeillio o ddefnyddio hysbysiadau atal dros dro. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio chwarae rhan yn y gwaith o hyrwyddo arfer gorau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen cynnal ymgynghoriad manylach ynghylch Hysbysiadau Atal Dros Dro. Yn benodol, nododd grwpiau penodol nad oeddent yn siŵr sut roedd Hysbysiadau Atal Dros Dro yn wahanol i Hysbysiadau Atal presennol.

5.241 Cafwyd rhai ymatebion negyddol i'r cynigion, gan gynnwys sylwadau a oedd yn awgrymu na fyddai eu cyflwyno yn fanteisiol ac y câi grwpiau penodol mewn cymdeithas eu rhoi o dan anfantais ddifrifol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y system orfodi bresennol yn gweithio'n dda ac nad oes llawer i'w ddweud o blaid cyflwyno'r cynigion hyn. Mynegodd eraill bryderon y gallai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio hysbysiadau o'r fath fel adnodd negodi er mwyn peri oedi i brosiectau ac nid oedd ymatebwyr eraill yn cefnogi'r ffaith nad oedd hawl i apelio. At hynny, mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch yr effeithiau negyddol posibl y gallai'r cynigion eu cael ar grwpiau penodol gan gynnwys cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

**Roedd sylwadau eraill a oedd y tu allan i gwmpas cwestiynau penodol yr ymgynghoriad ac na chyfeirir atynt mewn man arall yn cynnwys y canlynol:**

*Cyffredinol*

5.242 Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion a nodir yn y Bil Cynllunio (Cymru) a'r papur ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol ar y cyfan a gwnaethant gydnabod bod newid diwylliant yn rhan annatod o unrhyw raglen i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru. Cydnabu llawer o ymatebwyr fod angen gwella perfformiad cynllunio.

5.243 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at rôl cyrff ac unigolion allweddol o fewn y system gynllunio ddiwygiedig, yn amrywio o Lywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio lleol (gan gynnwys aelodau), cynghorau tref a chymuned, ymgyngoreion statudol ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru.

5.244 Cafwyd sylwadau ynghylch cymhellion a chosbau i hyrwyddo cydymffurfiaeth â darpariaethau'r Bil. Cyfeiriodd ymatebwyr at y system apeliadau gan gynnwys adolygiad barnwrol, hawliau trydydd partïon i apelio a phŵer Gweinidogion Cymru i alw ceisiadau i mewn.

5.245 Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar y gydberthynas rhwng cyfundrefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn Lloegr a'r setliad datganoli yng Nghymru. Cyflwynodd eraill sylwadau ar ganiatadau datblygu cysylltiedig a chaniatadau atodol sy'n ymwneud â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru.

5.246 Codwyd mater atgyfnerthu deddfwriaeth sylfaenol yn Lloegr ac, yn benodol, yng Nghymru, gan rai ymatebwyr. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i weithredu'r Bil Cynllunio (Cymru).

*Rheoli Datblygu*

5.247 Cyflwynodd ymatebwyr sylwadau ar faterion sy'n ymwneud â rheoli datblygu yn gyffredinol gan holi am faterion penodol yn amrywio o ystyriaethau perthnasol, hawliau datblygu a ganiateir (gan gynnwys telathrebu), ffioedd ceisiadau cynllunio, manwerthu, ffioeddd a chaniatadau datblygu cysylltiedig a chaniatadau atodol, cytundebau Adran 106, Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

*Cynllunio Datblygu*

5.248 Thema gyffredin ymhlith ymatebwyr oedd yr angen i wella trefniadau cydweithio a chyflwynodd ymatebwyr sylwadau ar waith trawsffiniol. Cafwyd sylwadau hefyd ar weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned.

5.249 Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi mwy o bwys ar anghenion cymunedau lleol pan fo awdurdodau cynllunio lleol yn pennu eu targedau tai ac yn penderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau tai newydd.

*Polisi Cynllunio*

5.250 Gwnaeth ymatebwyr sylwadau ar bolisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Hysbysiadau Cyngor Technegol (gweler hefyd baragraff 3.13).

5.251 Mynegodd ymatebwyr safbwyntiau ar seilwaith gwyrdd, polisi amaethyddol a datblygiadau Un Blaned. At hynny, cafwyd sylwadau ar dai fforddiadwy, tai amlfeddiannaeth a materion diogelwch cymunedol.

*Gorfodi ac Apeliadau*

5.252 Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai unigolion a chymunedau gael yr hawl i apelio ac awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid sefydlu Tribiwnlys Cynllunio i Gymru, yn lle'r Arolygiaeth Gynllunio (Cymru) bresennol.

# Atodiad 1

## Rhestr o ymatebwyr

Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddwyd y Bil Cynllunio (Cymru) drafft a'r papur ategol ‘Cynllunio Cadarnhaol – Cynigion i ddiwygio'r System Gynllunio yng Nghymru’ at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus. Cafwyd 405 o ymatebion, gan gynnwys 113 gan ddau ymgyrch ymateb a oedd yn union yr un fath, ac mae mynegai o'r ymatebion a gafwyd ar gael isod.  Cyhoeddwyd manylion yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru: [http://wales.gov.uk/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?skip=1&lang=cy)

**Ymatebion**

Gofynnwyd i ymatebwyr gwblhau ffurflen ymateb. Fodd bynnag, cafwyd rhai ymatebion mewn neges e-bost neu fel dogfen ar wahân. Rhoddwyd cyfeirnod penodol i bob ymateb; rhoddwyd yr un cyfeirnod i’r ymatebion ymgyrchu a oedd yn union yr un fath a gafwyd gan y ddwy ymgyrch.

**Diogelu Data**

At ddibenion diogelu data mae enw a manylion cyfeiriad yr ymatebwyr hynny a oedd am aros yn ddienw wedi'u dileu o'r mynegai isod ac o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088001 | The Woodland Farm |
| WG20088002 | Ysgol Cynllunio a Daearyddiaeth Prifysgol Caerdydd |
| WG20088003 | CBS Blaenau Gwent |
| WG20088004 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088005 | Cyngor Tref y Trallwng |
| WG20088006 | Cyngor Tref Caernarfon |
| WG20088007 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088008 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088009 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| WG20088010 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088011 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088012 | Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog |
| WG20088013 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088014 | Swiftrelocations |
| WG20088015 | Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru |
| WG20088016 | Cymdeithas Ddinesig y Fenni a'r Cylch |
| WG20088017 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088018 | Cyngor Sir Fynwy |
| WG20088019 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088020 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088021 | Grŵp Menter Merthyr |
| WG20088022 | Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru |
| WG20088023 | SLR Consulting Limited |
| WG20088024 | L.S. Planning Ltd |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088025 | Cymdeithas Ddinesig Dinbych-y-pysgod |
| WG20088026 | Uklyptus |
| WG20088027 | Ymgynghorydd preifat |
| WG20088028 | Cyngor Cymuned Llangoedmor |
| WG20088029 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088030 | Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn |
| WG20088031 | Arqiva |
| WG20088032 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| WG20088033 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088034 | Dragons Back Inn |
| WG20088035 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088037 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088038 | Y Cynghorydd Jeana Hall |
| WG20088039 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088040 | Canolfan Gymunedol Aber-miwl a Llandysul |
| WG20088041 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088042 | Fforwm Cynghorau Lleol Gogledd Sir Drefaldwyn |
| WG20088043 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088044 | Cyngor Sir Powys |
| WG20088045 | Y Gymdeithas Mannau Agored |
| WG20088046 | Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr |
| WG20088047 | ACPO Cymru |
| WG20088048 | Adam & Frances Voelcker Architects |
| WG20088049 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088050 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088051 | Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru |
| WG20088052 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088053 | Cyngor Tref Llanelli |
| WG20088054 | Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd |
| WG20088055 | Cyngor Bro Morgannwg |
| WG20088056 | Cyngor Tref Pontarddulais |
| WG20088057 | Sullivan Land & Planning |
| WG20088058 | Cyngor Cymuned Llanfair |
| WG20088059 | Pembroke Design Ltd |
| WG20088060 | Cyngor Sir y Fflint |
| WG20088061 | Parc Carafannau'r Bala |
| WG20088062 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088063 | Cymdeithas Cymuned Freshwater East |
| WG20088064 | Melin Tregwynt |
| WG20088065 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088066 | National Planning Forum Mediation in Planning Prog |
| WG20088067 | ASDA |
| WG20088068 | West Coast Energy Ltd |
| WG20088069 | Y Tasglu Cyflenwad Tai |
| WG20088070 | Cyngor Un Blaned |
| WG20088071 | Cyngor Sir Penfro |
| WG20088072 | Yr Awdurdod Glo |
| WG20088073 | Prosiect Undod |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088074 | Evocati Limited |
| WG20088075 | Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU |
| WG20088076 | Lammas Low Impact Initiatives Ltd |
| WG20088077 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088078 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| WG20088079 | Cymdeithas Gweithredwyr Symudol |
| WG20088080 | Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru |
| WG20088081 | Sainsburys Supermarkets Limited |
| WG20088082 | Cyngor Tref y Bontfaen (Bwrdeistref Hynafol) gyda Llanfleiddan |
| WG20088083 | Pembroke Design Ltd |
| WG20088084 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088085 | Network Rail |
| WG20088086 | James & Nicholas LLP |
| WG20088087 | Cyngor Tref Llanandras a Norton |
| WG20088088 | Cyngor Cymuned Pentyrch |
| WG20088089 | Chwaraeon Cymru |
| WG20088090 | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| WG20088091 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088092 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088093 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088094 | Cyngor Tref Aberdaugleddau |
| WG20088095 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088096 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088097 | *Unigolyn Preifat* |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088098 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088099 | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| WG20088100 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| WG20088101 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088102 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088103 | Acanthus Holden |
| WG20088104 | Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth |
| WG20088105 | Coleg y Therapyddion Galwedigaethol |
| WG20088106 | Cyngor Tref Talgarth |
| WG20088107 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088108 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088109 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088110 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| WG20088111 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088112 | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| WG20088113 | Carnegie UK Trust |
| WG20088115 | PLANED |
| WG20088116 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088117 | Tai Pawb |
| WG20088118 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| WG20088119 | Penseiri Adam a Frances Voelcker |
| WG20088120 | Touchstone - the magazine for architecture in Wales |
| WG20088121 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088122 | Cyngor Sir Ceredigion |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088123 | Twristiaeth Gogledd Cymru |
| WG20088124 | Cangen Sir Benfro o YDCW |
| WG20088125 | Coed Cadw (Yr Ymddiriedolaeth Coed) |
| WG20088126 | Cymdeithas Cymuned Cilgwyn |
| WG20088127 | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| WG20088128 | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| WG20088129 | Cyngor Sir Powys |
| WG20088130 | Grŵp Seren |
| WG20088131 | Cyngor Dinas a Sir Abertawe |
| WG20088132 | CREW Adfywio Cymru |
| WG20088133 | Un Llais Cymru |
| WG20088134 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088136 | Grŵp Tai Coastal |
| WG20088137 | Cyngor Sir Powys |
| WG20088138 | Envirowatch.Eu |
| WG20088139 | Grid Cenedlaethol |
| WG20088140 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088141 | Cyngor Tref Abergele |
| WG20088142 | Siambrau Garden Court |
| WG20088143 | RSPCA Cymru |
| WG20088144 | Cyngor Tref Bae Colwyn |
| WG20088145 | Horizon Nuclear Power |
| WG20088146 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088147 | Cydbwyllgor Cynghori Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088148 | (Dilëwyd ar gais yr ymatebydd) |
| WG20088149 | RSPB |
| WG20088150 | Parciau Cenedlaethol Cymru |
| WG20088151 | The Loose Anti Opencast Network (LAON) |
| WG20088152 | RICS Cymru |
| WG20088153 | Bwrdd Dinas-Ranbarth De-ddwyrain Cymru |
| WG20088154 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088155 | Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru |
| WG20088156 | Pembrokeshire Wales Coastal Holidays |
| WG20088157 | Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru |
| WG20088158 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| WG20088159 | Cyngor Sir Ddinbych |
| WG20088160 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088161 | Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol |
| WG20088162 | Scottish Power Renewables |
| WG20088163 | Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent |
| WG20088164 | Nathaniel Lichfield & Partners |
| WG20088165 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088166 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088167 | Grŵp Gwalia |
| WG20088169 | Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru |
| WG20088170 | Cŵn Tywys Cymru |
| WG20088171 | CLA Cymru |
| WG20088173 | Traveller Law Reform Project |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088174 | Harrow Estates plc |
| WG20088175 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| WG20088176 | Grayling / CITB |
| WG20088177 | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| WG20088178 | Anwyl Construction Co Ltd |
| WG20088179 | Cyngor Tref Arberth |
| WG20088180 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088181 | Cymdeithas y Siopau Cyfleustra |
| WG20088182 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088183 | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| WG20088184 | Sustrans Cymru |
| WG20088185 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088186 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| WG20088187 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088188 | The Community Law Partnership |
| WG20088189 | Cyngor Tref Penarth |
| WG20088190 | Valero Energy Ltd |
| WG20088191 | Tesco Stores Limited |
| WG20088192 | Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru |
| WG20088193 | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| WG20088194 | RNIB Cymru |
| WG20088195 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088196 | @rchitecture |
| WG20088197 | CLAS Cymru |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088198 | Cymdeithas Cynnyrch Mwynol |
| WG20088199 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| WG20088200 | Cymdeithasau Parciau Cenedlaethol Cymru |
| WG20088201 | Cyfeilion Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |
| WG20088202 | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru |
| WG20088203 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088204 | World Society for the Protection of Animals (WSPA) |
| WG20088205 | Energy UK |
| WG20088206 | Prifysgol Caerdydd |
| WG20088207 | Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd |
| WG20088208 | Persimmon Homes West Wales Ltd |
| WG20088209 | Cymorth Cynllunio Cymru |
| WG20088210 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088211 | Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd |
| WG20088212 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088213 | Vattenfall |
| WG20088214 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088215 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088216 | Cyngor Cymuned Pont-y-Clun |
| WG20088217 | Severn Trent Water Ltd |
| WG20088218 | Cydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru |
| WG20088219 | Cyngor Tref Caerfyrddin |
| WG20088220 | Cyngor Cymuned Gorslas |
| WG20088221 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088222 | Dŵr Cymru |
| WG20088223 | Comisiwn Dylunio Cymru |
| WG20088224 | Cyngor Cymuned Llangyfelach |
| WG20088225 | iDeA Architects |
| WG20088226 | Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru |
| WG20088227 | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| WG20088228 | Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru |
| WG20088229 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088230 | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| WG20088231 | Cyngor Tref Crucywel |
| WG20088232 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088233 | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| WG20088234 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088235 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088236 | Persimmon Homes East Wales |
| WG20088237 | Stride Treglown |
| WG20088238 | Undeb Amaethwyr Cymru |
| WG20088239 | RTPI Cymru |
| WG20088240 | Cymdeithas Ddinesig Caerdydd, |
| WG20088241 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| WG20088242 | Sefydliad yr Archeolegwyr |
| WG20088243 | Cyngor Tref Yr Wyddgrug |
| WG20088244 | Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref |
| WG20088245 | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088246 | Cyfeillion y Ddaear Cymru |
| WG20088247 | Yr Ymddiriedolaeth Theatrau |
| WG20088248 | Boyer Planning Limited |
| WG20088249 | Anabledd Cymru |
| WG20088250 | Cyngor Sir Caerdydd |
| WG20088251 | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI Cymru) |
| WG20088252 | Barton Willmore |
| WG20088253 | Magnox Limited |
| WG20088254 | Sefydliad Siartredig Tai Cymru |
| WG20088255 | Melin Tregwynt |
| WG20088256 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088257 | Dinas a Sir Abertawe |
| WG20088258 | Redrow Homes |
| WG20088259 | *(Dilëwyd ar gais yr ymatebydd)* |
| WG20088260 | Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru |
| WG20088261 | Court Bleddyn Farm |
| WG20088262 | CLlLC |
| WG20088263 | Ymateb ar y cyd gan Cymorth Cynllunio Cymru ac Un Llais Cymru |
| WG20088264 | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| WG20088265 | Richard Andrews Architects |
| WG20088266 | Cyngor Tref Pontardawe |
| WG20088267 | RWE Npower plc |
| WG20088268 | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| WG20088269 | Adventure - Tree top Adventure Snowdonia |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088270 | BT |
| WG20088271 | Sefydliad Tirlunio Cymru |
| WG20088272 | Cyngor Cymuned Llanstadwel |
| WG20088273 | Cyngor Dinas Casnewydd |
| WG20088274 | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| WG20088275 | Y Cynghorydd Aled Evans |
| WG20088276 | Mentrau Iaith Cymru |
| WG20088277 | Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon |
| WG20088278 | Dyfodol i'r Iaith |
| WG20088279 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088280 | Y Cynghorydd Elin Walker Jones |
| WG20088281 | Partneriaeth Penllyn |
| WG20088282 | Pwyllgor Cynllunio Sir Gaerfyrddin |
| WG20088283 | Cyngor Gwynedd |
| WG20088284 | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| WG20088285 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088286 | Comisiynydd y Gymraeg |
| WG20088287 | National Surface Water Management |
| WG20088288 | Rheoli'r Perygl o Lifogydd Cymru |
| WG20088289 | *Unigolyn Preifat* |
| WG20088290 | Cymdeithas yr Iaith |
| WG20088291 | Cymdeithas yr Iaith – YMGYRCH – 94 o ymatebion gan unigolion preifat |
| WG20088292 | *Unigolyn Preifat* |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| WG20088293 | Cyfeillion y Ddaear – YMGYRCH – 19 o ymatebion gan unigolion preifat |
| WG20088294 | Cyngor Sir Conwy |
| WG20088295 | Cymunedau Morfa Nefyn ac Edern, Gwynedd |
| WG20088296 | Y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Aelod Seneddol |
| WG20088297 | Urdd Gobaith Cymru |
| WG20088299 | Y Cynghorydd Andrew Wood |
| WG20088300 | Cymdeithas Preswylwyr Trefforest |